SIR FYNWY

MONMOUTHSHIRE




# Cynllun Llesiant Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy

MON MOUTH SHIRE

# Rheoli Fersiynau

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cynllun Llesiant Sir Fynwy |
| **Pwrpas** | Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus dan les Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ddod ynghyd fel Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus a gosod amcanion Llesiant ar gyfer Sir Fynwy a amlinellir yn y cynllun hwn. |
| **Perchennog** | Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **Cymeradwywyd gan** | Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid cyfansoddol |
| **Dyddiad** | Chwefror 2018 |
| **Rhif y Fersiwn** | 4.0 |
| **Statws** | Terfynol ar gyfer cymeradwyaeth |
| **Amledd Adolygu** | Yn flynyddol |
| **Dyddiad adolygiad nesaf** | Gorffennaf 2019 |

Am wybodaeth bellach, gweler [www.monmouthshire.gov.uk/our-monmouthshire](http://www.monmouthshire.gov.uk/our-monmouthshire)

Cynhyrchwyd Atodiad fel atchwanegiad ar gyfer y Cynllun Llesiant hwn. Cynhwyswyd peth o gynnwys yr Atodiad fel Atodiadau o fewn y Cynllun Llesiant drafft. Mae'n cynnwys gwybodaeth gefndirol ynghylch yr Asesiad Llesiant, y broses a ddefnyddiwyd i symud o'r Asesiad Llesiant i'r Cynllun Llesiant a sut y dewiswyd yr amcanion terfynol.

Monmouthshire
Public Service Board

## Partneriaid Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy:

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

monmouthshire
sir fynwy

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

South Wales Fire and Rescue Service
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

melin
together we can...

MHA
Monmouthshire Housing
Tai Sir Fynwy

Heddlu Gwent Police

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Swyddfa Comisiynydd Yr Heddlu a Throseddu
GWENT
Office of Police and Crime Commissioner

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
Gwent Association of Voluntary Organisations

Rhif Elusen Gofrestredig / Registered Charity Number: 1113558
Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant / Company Limited By Guarantee: 5590517

# Cynnwys


Rheoli Fersiynau 2

Cynnwys 4

Rhagair 5

Paham Cynllun Llesiant? 7

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 7

Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus 7

Sut mae'r Cynllun Llesiant yn cysylltu â phethau eraill sy'n digwydd yn Sir Fynwy? 8

Datblygu'r Asesiad Llesiant 11

O asesiad Llesiant i amcanion Llesiant i weithredu 12

Amcanion Llesiant Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus 14

Cymhwyso'r Pum Ffordd o Weithio 14

Egluro'r amcanion 18

Amcan Llesiant - Darparu'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc 19

Amcan Llesiant - Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig 21

Amcan Llesiant - Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra rhwystrir ac addasir i effaith newid hinsawdd 23

Amcan Llesiant - Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sydd â chysylltiadau da ac sy'n ffynnu'n economaidd 26

Beth sy'n Digwydd Nesaf? 28

Ymgynghori ar y Cynllun Llesiant 28

O Gynllun Llesiant i weithredu 29

Gweithio gyda'n gilydd fel ByGC i wneud i'r amcanion ddigwydd 30

Gwerthuso ac adolygu 32

Casgliad 34

# Rhagair

*"Never doubt that a small group of thoughtful, committed, citizens can change the world. Indeed, it is the only thing that ever has."*

Margaret Mead


Mae Sir Fynwy'n lle anhygoel wedi'i fendithio â phobl ardderchog a chymunedau cadarn. Mae e'r math o le mae pobl yn dymuno treulio amser ynddo am ei bod yn hyfryd yma. Mae hefyd yn lle sy'n wynebu heriau -nawr ac yn y dyfodol. Mae'n rhaid i ni ddygymod â phrisiau tai nad ydynt yn fforddiadwy i bob teulu, anghydraddoldebau incwm a chyfoeth, trafnidiaeth gyhoeddus wael ac anawsterau cael mynediad i'r byd digidol. Ni chaiff methiant yn y farchnad, o fewn cyd-destun gwledig, lawer o benawdau yn y wasg ond mae'n real a chaiff effaith ar ein bywydau. Edrychwn ymlaen at fyw'n hwy a disgwyliwn weld mwy o faterion yn ymwneud â newid hinsawdd. Mae'r rhain yn wir yn bethau cymhleth. Mae angen i ni eu hwynebu os ydym am weld gwell dyfodol i ni'n hunain a'n plant.

Datblygwyd y Cynllun Llesiant hwn yn seiliedig ar dystiolaeth yn tarddu o ymgysylltu eang â phobl a grwpiau ar draws Sir Fynwy. Yn ychwanegol, rydym wedi dadansoddi ystod eang o ddata, adroddiadau ac astudiaethau academaidd i'n helpu i ddeall llesiant ac ymgodymu â rhai o'r cyfleoedd a'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r sir. Rydym yn gwybod na allwn ysgwyddo popeth felly roeddem eisiau bod yn hollol sicr ein bod yn ysgwyddo'r pethau hynny sydd o wir bwys i chi.

Nid cynllun i ddelio â phethau hawdd mo hwn nac i gofnodi prosiectau ticio'r blychau mae sefydliadau unigol yn alluog i gyflenwi ar eu pennau eu hunain. Mae'r cynllun hwn yn ymwneud â'r pethau anodd. Mae'r pethau tymor hir yn anodd eu cychwyn ac yn anos eu cynnal. Y pethau y mae angen i wasanaethau cyhoeddus ddod ynghyd er mwyn gweithredu ar eich rhan. Fe wyddom na fydd hyn yn berffaith a derbyniwn y bydd cyfleoedd newydd yn codi. Fe fyddwn yn agored i newid a byddwn yn parhau i wynebu arferion a syniadau fydd yn datblygu o gwmpas y byd.

Ond uwchlaw popeth arall, mae'r cynllun hwn yn alwad i weithredu ar eich rhan. Caiff yr hyn a wna effaith ar eich teuluoedd, eich pentrefi a'ch trefi ac ar eich ceraint. Mae dyddiau derbyn yn oddefol wasanaethau a gyllidir gan y wladwriaeth wedi darfod. Rydym yn gofyn i chi ymuno gyda ni a gwneud cyfraniad. Rydym yn gofyn i chi gynnig yn ôl i'ch cymunedau'r hyn rydych chi mewn safle unigryw i gynnig. Rydym yn gofyn i chi ymuno gyda ni a'n helpu i osod llwybr i'r sir brydferth hon fel y dechreuwn feddwl am yr 22ain ganrif. Nid ydym yn gofyn am fwy nag y gallwch ei gynnig na'n fodlon ei gynnig. Gyda'n gilydd gallwn greu'r amodau i Sir Fynwy barhau i fod yn lle o '*gymunedau cynaliadwy, cydnerth'*.

**Paul Matthews**
**Cadeirydd Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy**




DEVELOPING 'OUR MONMOUTHSHIRE' WELL-BEING PLAN OBJECTIVES TOGETHER
TELL US YOUR VIEWS: WWW.MONMOUTHSHIRE.GOV.UK/OUR-MONMOUTHSHIRE
MONMOUTHSHIRE PUBLIC SERVICE BOARD WELL-BEING PLAN
IDEAS TO IMPLEMENTATION
WELL-BEING PLAN
DELIVERING WELL-BEING FOR FUTURE GENERATIONS
MON MOUTH SHIRE
1 GIVE CHILDREN AND YOUNG PEOPLE THE BEST BEST POSSIBLE START IN LIFE
TACKLING THE CAUSES OF ADVERSE CHILDHOOD EXPERIENCES AND GENERATIONAL PROBLEMS IN FAMILIES.
WORKING TO TACKLE PHYSICAL INACTIVITY AND OBESITY TO IMPROVE WELL-BEING.
SUPPORTING THE MENTAL HEALTH AND EMOTIONAL WELL-BEING OF CHILDREN.
WORKING WITH SCHOOLS AND SERVICES FOR CHILDREN TO FOCUS ON WELL-BEING RATHER THAN JUST EXAM RESULTS.
SUPPORT
FOCUS ON WELL-BEING FOR CHILDREN
BEST POSSIBLE START
PUBLIC SERVICES WORKING TOGETHER
WE WANT TO HEAR YOUR VIEWS
WORKING TOGETHER
MONMOUTHSHIRE
THE PUBLIC SERVICE BOARD WELL-BEING PLAN WILL LOOK AT THE ECONOMIC, SOCIAL, ENVIRONMENTAL AND CULTURAL WELL-BEING OF THE COUNTY.
2 ADDRESS THE CHALLENGES OF DEMOGRAPHIC CHANGE
EXPLORING THE POTENTIAL TO DEVELOP GOOD RELATIONSHIPS BETWEEN PEOPLE OF DIFFERENT AGES.
FOCUSSING ON WELL-BEING AND LOOKING AFTER EACH OTHER RATHER THAN JUST FORMAL CARE PROVISION.
DEVELOPING NETWORKS FOR ALL AGES THAT SUPPORT PEOPLE'S WELL-BEING IN THEIR LOCAL COMMUNITIES.
ENSURING SUITABLE & AFFORDABLE HOUSING IS AVAILABLE TO PEOPLE OF ALL AGES.
PROMOTING ACTIVE CITIZENSHIP, LIKE VOLUNTEERING & TIME-BANKING.
CHALLENGES
NETWORKS
HOUSING
ACTIVE CITIZENSHIP
RECIPROCAL
GOOD RELATIONSHIPS
DEMOGRAPHIC CHANGE
WELL-BEING
PEOPLE OF ALL AGES
3 COMMUNITIES AND BUSINESSES TO BE PART OF AN ECONOMICALLY THRIVING AND WELL CONNECTED COUNTY
MAKING THE MOST OF OPPORTUNITIES OFFERED BY THE CITY DEAL.
DEVELOPING NEW TECHNOLOGIES FOR IMPROVING RURAL TRANSPORT.
ENSURING THAT TRAINING AND EDUCATION EQUIPS PEOPLE FOR THE JOBS OF THE FUTURE.
BETTER BUSINESS NETWORKING TO SHARE KNOWLEDGE & REGIONAL OPPORTUNITIES TO HELP BUSINESSES GROW.
EXPLORING THE POTENTIAL FOR SPECIALIST CENTRES OF EXCELLENCE IN MONMOUTHSHIRE E.G. FOOD/HOSPITALITY, AGRICULTURE, TOURISM AND TECHNOLOGY.
NEW TECHNOLOGIES
OPPORTUNITIES
SHARE KNOWLEDGE
TRAINING & EDUCATION
MONMOUTHSHIRE-WIDE
SPECIALIST CENTRES OF EXCELLENCE
#OURMONMOUTHSHIRE
WWW.MONMOUTHSHIRE.GOV.UK/OUR-MONMOUTHSHIRE
SCAN TO VISIT OUR WEBSITE
BUSINESS NETWORK
4 PROTECT & ENHANCE OUR NATURAL ENVIRONMENT AND MINIMISE THE IMPACT OF CLIMATE CHANGE
IMPROVING THE RESILIENCE OF HABITATS AND WILDLIFE AND THE BENEFITS THEY BRING.
ENSURING DESIGN AND PLANNING BUILDS COMMUNITIES THAT ARE GOOD FOR PEOPLE AND THE ENVIRONMENT.
ENABLING RENEWABLE ENERGY, ESPECIALLY COMMUNITY OWNED SCHEMES.
ENABLING ACTIVE TRAVEL AND SUSTAINABLE TRANSPORT TO IMPROVE AIR QUALITY AND HEALTH.
WORKING WITH CHILDREN AND YOUNG PEOPLE TO MAKE THEM RESPONSIBLE GLOBAL CITIZENS OF THE FUTURE.
IMPROVE RESILIENCE OF HABITATS
GLOBAL CITIZENS OF THE FUTURE
ACTIVE TRAVEL
RENEWABLE ENERGY
NATURAL ENVIRONMENT
SUSTAINABLE TRANSPORT
CROSS CUTTING AND SYSTEM ACTIONS
DEVELOP TOOLKITS AND OTHER WAYS TO HELP COMMUNITIES TO HELP THEMSELVES.
ENSURE CLEAR LINES OF COMMUNICATION BETWEEN THE PUBLIC SECTOR AND WIDER COMMUNITY.
DEVELOP BETTER CONNECTIONS BETWEEN SERVICES, ORGANISATIONS AND COMMUNITY GROUPS, TO WORK IN A MORE JOINED-UP, PREVENTATIVE WAY.
JOIN UP DATA, INFORMATION AND SYSTEMS TO HELP AGENCIES BETTER UNDERSTAND CHALLENGES AND OPPORTUNITIES.
EXPLORE THE POTENTIAL TO SHARE FINANCE AND ASSETS TO DELIVER THE WELL-BEING PLAN.
IDENTIFY OPPORTUNITIES FOR PUBLIC SECTOR PROCUREMENT TO BETTER SUPPORT LOCAL PRODUCTS AND SERVICES.
MAP: FRAN O'HARA © SCARLET DESIGN INT. LTD. 2017

# Paham Cynllun Llesiant?

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn Ebrill 2016 cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Ddeddf  Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r darn arloesol hwn o ddeddfwriaeth ynghylch gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein cenedl, ein sir a'r cymunedau sy'n ei gwneud yr hyn ydyw.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu fel mae angen i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, edrych i atal problemau a chymryd agwedd fwy cydgysylltiedig. Cyfeirir at y rhain fel y pum ffordd o weithio. Wrth weithredu yn y modd hwn, mae gennym well cyfle i greu lle rydym ni gyd eisiau byw ynddo, nawr  ac yn y dyfodol.




Er mwyn gwneud yn siŵr bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf  yn gosod yn eu lle'r saith amcan llesiant y gallwch eu gweld yn y diagram hwn.

Mae angen i'r cyrff cyhoeddus a glymir gan y Ddeddf osod eu hamcanion llesiant eu hunain erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae'n rhaid iddynt hefyd ddod ynghyd fel Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus a gosod amcanion llesiant ar gyfer y sir gyfan a amlinellir yn y cynllun hwn. Gwneir hyn bob pum mlynedd.

## Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus

Pedwar aelod statudol Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus (ByGC) yw'r Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Awdurdod Tân ac Achub  a Chyfoeth Naturiol Cymru. Gwahoddir sefydliadau eraill yn ogystal; yn Sir Fynwy mae'r rhain yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Heddlu Gwent, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Gwent, Cymdeithas Tai Sir Fynwy, Cartrefi Melin a'r sefydliadau gwirfoddol  a gynrychiolir drwy Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent. Mae'n rhaid i Fyrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o lesiant lleol, cynhyrchu cynllun llesiant ac adrodd yn flynyddol ar ei gynnydd. Dyma gynllun llesiant cyntaf Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy ac mae'n gosod yr amcanion y bydd holl aelodau Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymrwymo iddynt wrth ymdrechu i'w cyflawni.

Mae ByGC yn atebol mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy Bwyllgor Dethol ymroddedig a thrwy fewnbwn Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a ddisgrifir yn fanylach isod.

### Craffu ByGC

Rhoddwyd i Lywodraeth Leol y cyfle i graffu ByGC a sicrhau y cymhwysir egwyddorion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol i unrhyw bolisi neu benderfyniad a gymerir ar draws Sir Fynwy. Sefydlodd Cyngor Sir Fynwy Bwyllgor Dethol ByGC ym Mehefin 2016, ac maent wedi craffu gwaith ByGC ers y cychwyn.

Roedd gan y Pwyllgor Dethol ran allweddol i'w chwarae wrth herio llymder y prosesau a gymerwyd i ddatblygu'r Asesiad a'r Cynllun Llesiant.

Maent wedi cyfarfod yn gyson ac wedi craffu datblygiad a chynnwys yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant ynghyd ag edrych ar y modd y lluniwyd ByGC a sut mae'n gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau.

### Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Dyletswydd gyffredinol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru yw hyrwyddo egwyddor datblygiad cynaliadwy (y pum ffordd o weithio), a gweithredu fel gwarcheidwad o allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion, drwy annog cyrff cyhoeddus i ystyried yn fwy difrifol effaith tymor hir yr hyn maent yn ei wneud.

Rhoddodd y Comisiynydd adborth manwl ar yr Asesiad Llesiant sydd wedi trwytho datblygiad y Cynllun Llesiant. Darparodd y Comisiynydd yn ogystal gyngor ar sut i gymryd camau i gwrdd â'r amcanion lleol a amlinellir yn y cynllun mewn modd sy'n gyson ag egwyddor datblygiad cynaliadwy. Cymerodd y Cynllun y cyngor hwn i ystyriaeth.

## Sut mae'r Cynllun Llesiant yn cysylltu â phethau eraill sy'n digwydd yn Sir Fynwy?

### Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus a Phartneriaethau yn Sir Fynwy

Mae'r tirlun partneriaethau yn Sir Fynwy'n cofleidio'n llawn weithio amlasiantaethol, gyda chynrychiolaeth o ystod eang o sefydliadau partner, gan gynnwys y trydydd sector, sy'n cydweithio i wella'r canlyniadau ar gyfer preswylwyr Sir Fynwy. Gellir gweld gwybodaeth bellach ar strwythur bresennol gweithio mewn partneriaeth dan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn y ddogfen Atodol sy'n perthyn i'r Cynllun.

Mae'r partneriaethau wedi bod yn gysylltiedig â datblygu'r amcanion gan gyfrannu'u safbwyntiau ar faterion allweddol y mae angen i Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn ymwybodol ohonynt i drwytho'u datblygiad o'r Cynllun Llesiant. Bydd cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth yn parhau i ffurfio rhan bwysig o'r mecanwaith cyflenwi ar draws y sir a bydd y partneriaethau'n hanfodol wrth gyflawni amcanion ByGC. Mae'n hanfodol o fewn Sir Fynwy fod ein partneriaethau amlasiantaethol yn parhau i gael swyddogaeth wrth gymryd camau i fynd i'r afael â materion allweddol a'r cyfleoedd y tynnir sylw atynt yn yr asesiad llesiant, hwyrach na fydd rhai ohonynt yn ymwneud â chyflenwi'n uniongyrchol tuag at amcanion ByGC, ond deil i fynd i'r afael â hwy a gallent gyfrannu fel mae'r gwaith yn mynd rhagddo.

## Cynghorau Tref a Chymuned

Mae 4 Cyngor Tref o fewn Sir Fynwy sy'n cwrdd â meini prawf y Ddeddf : Cynghorau Tref Y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy. Golyga hyn fod yn rhaid iddynt gymryd "camau rhesymol" i gwrdd â'r amcanion y Cynllun Llesiant hwn ac adrodd ar gynnydd yn flynyddol.

Mae ByGC yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr mae'r holl Gynghorau Tref a Chymuned yn ei gyflawni o fewn ein cymunedau ac mae ByGC yn ymchwilio i bob cyfle i weithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned i gyflawni'r amcanion Llesiant. Ymgynghorwyd â phob Cyngor Tref a Chymuned, gan gynnwys y rheiny a gaiff eu cwmpasu gan y Ddeddf, ar yr Asesiad a'r Cynllun Llesiant ac fe'u hanogir i ystyried fel y gallant gyfrannu at gwrdd ag amcanion y Cynllun.

## Sir Fynwy'r Dyfodol

Dyluniwyd rhaglen Sir Fynwy'r Dyfodol i alinio gydag egwyddor ion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Fe'i harweinir gan Gyngor Sir Fynwy ac fe'i cytunwyd gan bartneriaid eraill ByGC i ffurfio rhan o'i meddylfryd fel y datblyga amcanion llesiant a'r camau y bydd yn eu cymryd i gwrdd â'r rhain, gan gydnabod yr angen i gydweithio er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn sy'n cael eu clustnodi. Mae'r rhaglen yn defnyddio dulliau a phrosesau ac yn denu i mewn arbenigedd i edrych ar y modd y gall y Sir barhau'n berthnasol ac yn hyfyw ar gyfer y genhedlaeth nesaf yn y tymor canolig i hir. Bydd hyn yn golygu cadw'n llygaid ar agor a'n pennau i fyny i fabwysiadu rhai o'r atebion newydd o gwmpas y DU a'r byd ehangach a allai weithio yma yn Sir Fynwy, tra rydym yn dal i gwrdd ag anghenion preswylwyr, ymwelwyr a busnesau yn y cyfnod presennol

## Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Ddeddf Llesiant

Daeth y Ddeddf hon i rym yn Ebrill 2016 i drawsffurfi'r ffordd y cyflenwir gofal a chymorth gan ei gwneud yn gyfrifoldeb ar fwy na dim ond adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol. Mae a wnelo â hyrwyddo annibyniaeth pobl i roi llais cryfach iddynt a mwy o reolaeth dros y pethau sydd o bwys iddynt. Ei nod yw cefnogi pobl o bob oedran drwy eu teuluoedd a'u cymunedau fel eu bod yn llai dibynnol ar wasanaethau sefydliadol. Mae'r Ddeddf:

- Yn annog gwasanaethau i ymgysylltu â dinasyddion a'u galluogi
- Yn hyrwyddo annibyniaeth a llesiant
- Yn rhoi i bobl sy'n derbyn cymorth a'u gofalwyr reolaeth dros eu bywydau a'r gefnogaeth a dderbyniant i fwyhau annibyniaeth.

Fel rhan o'r Ddeddf, cwblhawyd asesiad o anghenion y boblogaeth ar lefel ranbarthol (Gwent). Roedd hwn yn asio gyda'r Asesiad Llesiant a darparodd asesiad o anghenion a blaenoriaethau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol o fewn Rhanbarth Gwent Fwyaf dros gyfnod o 3 - 5 mlynedd. Mae'r asesiad anghenion wedi llywio'r Cynllun Ardal sy'n amlinellu'r canlyniadau a'r blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer gweithio rhanbarthol ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector a bydd yn hoelio sylw ar y canlynol:

- plant a phobl ifanc
- pobl hŷn

- anableddau iechyd ac anableddau corfforol
- iechyd meddwl
- pobl ag anableddau dysgu
- nam ar y synhwyrau
- gofalwyr
- pobl ag anhwylderau sbectrwm awtistiaeth

## Deddfwriaeth arall

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried sawl darn arall o ddeddfwriaeth gan gynnwys y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn, Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf Amgylchedd 2016, a'u heffaith ar y Cynllun Llesiant.

Gweithiodd ByGC yn galed yn ystod proses ymgysylltu *Ein Sir Fynwy* i sicrhau bod safbwyntiau'r holl bobl yn Sir Fynwy'n cael eu cynnwys, er enghraifft ymgymerwyd â gwaith gyda grwpiau anabl, pobl hŷn, ysgolion, ysgol Cyfrwng Cymraeg, grwpiau ieuenctid, grwpiau incwm isel a grwpiau eraill a dangynrychiolwyd. Trwythwyd yr amcanion y Cynllun hwn gan safbwyntiau'r bobl hum, ynghyd â safbwyntiau'r boblogaeth ehangach.

Ochr yn ochr â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r Ddeddf Amgylchedd yn cyflwyno dyletswydd fioamrywiaeth newydd ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Dynodwyd yr amgylchedd naturiol fel un o asedau mwyaf Sir Fynwy yn yr asesiad Llesiant.

Mae'r amcanion a'r camau a amlinellir yn y Cynllun hwn yn tynnu sylw at feysydd y bydd ByGC yn canolbwyntio arnynt er mwyn gwella llesiant, fydd, os yn llwyddiannus, yn rhoddi i blant a phobl ifanc y dechrau gorau posib mewn bywyd, yn gweithio i wella ffyniant yn y sir, yn gwneud y mwyaf o'r asedau y mae pobl hŷn yn eu cyfrannu tra sicrheir y cyfarfyddir â'u hanghenion a bydd yn mwyhau manteision ein hamgylchedd naturiol.

## Cwrdd â dyletswyddau statudol eraill

Gall Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus gwrdd â nifer o ddyletswyddau statudol eraill drwy'r Cynllun Llesiant, gan gynnwys trosedd ac anhrefn, camddefnyddio sylweddau, plant a theuluoedd, iechyd meddwl a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ar hyn o bryd nid yw Cynllun Llesiant Sir Fynwy'n amcanu at gyflenwi'r dyletswyddau hyn, y cyfarfyddir â hwy yn hytrach drwy waith sefydliadau a phartneriaethau eraill, megis Trais yn Erbyn Menywod Gwent, Cam-drin Domestig a'r Bwrdd Partneriaeth Trais Rhywiol a Sir Fynwy fwy Diogel.

# Datblygu'r Asesiad Llesiant

Ym Mawrth  2017, mabwysiadodd ByGC ei asesiad llesiant. Datblygwyd hwn drwy ymgysylltu eang gyda'r gymuned gan ddefnyddio proses *Ein Sir Fynwy*, ynghyd â dadansoddiad manwl o ddata, ystadegau, ymchwil a pholisi. Canolbwyntiodd yr Asesiad ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn y sir gyfan, a hefyd ar gyfer ein 5 maes daearyddol a amlinellir yn yr Asesiad Llesiant: Y Fenni a'r ardal o amgylch, Cas-gwent a'r Gwy Isaf , Calon Sir Fynwy (yn cynnwys Cil-y-coed, Rogiet, Magwyr a Gwndy).  Mae disgrifiad manwl o'r broses a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r asesiad yn yr Atodiad sy'n perthyn i'r Cynllun hwn.  Gellir gweld yr Asesiad Llesiant llawn ar www.monmouthshire.gov.uk/our-monmouthshire

Bydd yr asesiad llesiant yn ddogfen barhaus a deinamig. Yn ystod oes y Cynllun Llesiant hwn bydd yr asesiad yn parhau i fod yn ddogfen fyw a gaiff ei diweddaru ac yr ychwanegir ati. Bydd ByGC yn rhoddi ystyriaeth bellach i'r modd y caiff hyn ei hwyluso. Bydd datblygiad a diweddariad parhaus yr asesiad llesiant yn ffurfio rhan sylfaenol o unrhyw adolygiadau neu argraffiadau o'r amcanion llesiant yn y dyfodol.

Tynnodd yr asesiad Llesiant sylw at nifer o asedau y gallwn adeiladu dyfodol arnynt i bobl a chymunedau Sir Fynwy a hefyd nifer o broblemau a heriau sydd angen mynd i'r afael â hwy. Mae'r rhain wedi llywio datblygu'r Amcanion Llesiant a'r camau. Cynhwysir manylion pellach am yr heriau a'r cyfleoedd yn yr Atodiad.

# O asesiad llesiant i amcanion llesiant a chamau

Yn dilyn cwblhau'r Asesiad Llesiant, paratôdd Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus y cynllun llesiant lleol hwn sy'n amlinellu'i amcanion lleol a'r camau y bydd yn eu cymryd i gwrdd â hwy.

Roedd yn hanfodol cael proses drylwyr yn ei lle wrth symud o Asesiad Llesiant i Gynllun Llesiant er mwyn sicrhau bod yr amcanion a ddewiswyd gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael eu trwytho'n llawn a'u cynllunio gan y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan yr Asesiad Llesiant ac wedi cymryd agwedd integredig at gyflenwi yn erbyn nodau'r llesiant. Roedd yn rhaid i'r rhain fod yn faterion lle y gellid cymryd camau ar y cyd a gaiff effaith gadarnhaol ar lesiant yn y meysydd hynny.

Amlinellir yn y diagram isod y camau a gymerir i symud o'r asesiad llesiant i ddatblygu'r cynllun a rhoddir mwy o fanylder yn yr adran Fethodoleg yn yr Atodiad. Cafodd datblygiad y camau i gyflawni'r amcanion eu llywio gan ddadansoddiad o allbynnau gweithdy ByGC, ynghyd â thystiolaeth o'r asesiad llesiant ac amrywiol wybodaeth a gasglwyd drwy'r broses o ddatblygu'r amcanion, er enghraifft, o sesiynau gweithdy'r bartneriaeth strategol a gafodd eu cynnal.

Y cam nesaf i gyflawni'r amcanion a'r nodau fydd gweithio'n glos gyda phartneriaid i ddatblygu cynllun gweithredu manwl, a fydd yn amlinellu pa gamau gweithredu sydd angen digwydd, pwy fydd yn cymryd rhan a beth fydd y graddfeydd amser, ynghyd â gwybodaeth ynghylch y modd y byddwn yn mesur a fu'r gweithredu'n effeithiol i wella llesiant. Gellir gweld gwybodaeth bellach ar y broses hon yn yr adran O Gynllun Llesiant i Weithredu.

Proses symud o Asesiad Llesiant i Gynllun Llesiant

**Gweithdy Her ByGC**

- Adolygodd ByGC a'r Bwrdd Rhaglenni'r heriau a'r cyfleoedd allweddol a ddynodwyd yn yr Asesiad, wedi'u trwytho gan ymgysylltu cyhoeddus, data, polisi ac ymchwil.
- Defnyddiwyd fframwaith Cynefin i ddeall yn well natur yr heriau.
- Anwybyddwyd rhai o'r heriau oedd yng ngorchwyl sefydliadau unigol ac felly y tu hwnt i rychwant ByGC.

**Craffu ByGC**

- Wedi cyfarfod ddwywaith rhwng Gweithdy Her ByCG a mabwysiadu'r Asesiad Llesiant i graffu a herio'r broses o ddatblygu'r Asesiad a'r cynnwys.

**ByGC a'r Bwrdd Rhaglenni ar y cyd**

- Mabwysiadwyd yr Asesiad Llesiant.
- Rhoddwyd y dîm cefnogi'r ByGC a Bwrdd Golygyddol ByGC y gorchwyl o ddatblygu'r heriau allweddol i mewn i "fwydlen" o amcanion posib i'w cymryd i'r Bwrdd Rhaglenni.

**Y Bwrdd Rhaglenni**

- Mae'r Bwrdd Rhaglenni'n rhoi barn ar y 9 amcan posib yn amyrwio o'r bras i'r penodol.
- Mae pob amcan posib yn mynd i'r afael â heriau lluosog, yn cyfrannu at amcanion llesiant lluosog ac wedi dynodi'r ddaearyddiaeth fwyaf priodol i'w chyflenwi: lleol, Gwent, Prifddinas-Ranbarth.
- Mae'r Bwrdd Rhaglenni'n argymell y pwrpas "adeiladu cymunedau cynaliadwy a chydnerth", 3 dyhead trosfwaol a 4 amcan.

**Arwyddo terfynol gan y Bwrdd**

- Mae tîm cefnogi ByGC yn gweithio gyda phartneriaid ByGC ar yr amcanion arfaethedig.
- Mae holl aelodau ByGC yn arwyddo'n derfynol y 4 amcan drafft.

**Gweithdai Partneriaeth**

- Mae'r partneriaethau ehangach o dan ByGC yn adolygu'r amcanion drafft ac yn cyfrannu'u safbwyntiau ar faterion allweddol sylfaenol sydd angen i'r Bwrdd fod yn ymwybodol ohonynt.
- Bwydir y safbwyntiau partneriaeth drwyddo i aelodau ByGC i drwytho'u datblygiad o'r Cynllun Llesiant.

**ByGC a Gweithdai Partner**

- Gwahoddir "arbenigwyr" cenedlaethol a rhanbarthol i'r gweithdai i helpu i ddod ag arbenigedd a phersbectif ehangach i'r trafodaethau.
- Mae ByGC yn darparu gweledigaeth ar gyfer pob un o'r 4 amcan, gan ddynodi pwy ddylai fod yn gysylltiedig er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon a'r camau sydd eu hangen i gyrraedd y weledigaeth.
- Caiff camau sydd â'r "hedyn posibilrwydd" eu hadeiladu i mewn i'r Cynllun Llesiant.

# Amcanion Llesiant Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus

Yng Ngorffennaf  2017, cytunodd ByGC eu pwrpas o ***adeiladu cymunedau cynaliadwy a chydnerth***, tri dyhead trawstoriadol a fydd yn gymwys i'r holl amcanion a'r camau, a phedwar amcan llesiant - dau ynghylch pobl a dau ynghylch lle, fel y dangosir yn y tabl canlynol:

| **Pwrpas** | **Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth** | |
|---|---|---|
| **Ein dyhead yw:** | Lleihau anghyfartaledd rhwng cymunedau ac o fewn cymunedau<br>Cefnogi ac amddiffyn pobl sy'n agored i niwed<br>Gwireddu'r buddion sydd gan yr amgylchedd naturiol i'w cynnig | |
| **Ein Hamcanion Llesiant yw:** | *Pobl / Dinasyddion* | *Lle / Cymunedau* |
| | Darparu'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc | Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra rhwystrir ac addasir i effaith newid hinsawdd Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra cwtogir effaith newid hinsawdd ac addasu ar ei gyfer. |
| | Ymateb i'r her sy'n gysylltiedig â newid demograffig | Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sydd â chysylltiadau da ac sy'n ffynnu'n economaidd. |

Darperir â mwy o fanylder ynghylch y broses i ddatblygu'r amcanion a'r rhesymeg y tu ôl i'w dewis yn yr Atodiad.

## Cymhwyso'r pum ffordd o weithio

Drwy gydol proses datblygu'r cynllun llesiant, symud o dystiolaeth yr asesiad llesiant drwyddo i ddatblygu'r amcanion a'r camau a gynlluniwyd i gyflenwi'r  amcanion, fe gymhwyswyd y pum ffordd o weithio. Yn yr un modd, fel mae'r camau'n cael eu datblygu i mewn i weithredoedd, fe gymhwysir y ffyrdd o weithio.

### Tymor Hir

Nod y cynllun llesiant yw mynd i'r afael â'r materion heriol na ellir eu datrys yn hawdd yn y tymor byr. Mae angen meddwl yn y tymor hir a gweithredu cydweithredol i ddatrys llawer o'r heriau pennaf a ddynodir  yn yr asesiad llesiant. Yn yr un modd, ni chyflenwir nifer o'r camau arfaethedig a gymerir i gwrdd â'r amcanion llesiant yn y tymor byr, a bydd angen ymdrech ddygn dros amser er mwyn cynhyrchu manteision llesiant tymor hir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Pan gynllunnir ar gyfer y dyfodol, bu'r ByGC yn ystyrlon o dueddiadau yn y dyfodol a fydd yn effeithio ar bobl, economi ac amgylchedd Sir Fynwy. Mae hyn wedi golygu cyfeirio at wybodaeth Llywodraeth Cymru ar Dueddiadau'r Dyfodol. Yn ychwanegol comisiynodd awdurdodau yng Ngwent drwy'r Grŵp Asesu Llesiant Strategol Gwent, waith penodol i

ddatblygu dealltwriaeth o dueddiadau'r dyfodol a allai effeithio ar lesiant a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Ngwent. Cwblheir yr ymchwil hwn i ddatblygu'r cynllun gweithredu a bydd angen i adolygiadau o'r cynllun llesiant yn y dyfodol barhau i gymryd i ystyriaeth y dystiolaeth a dderbyniwyd o'r gwaith ar dueddiadau'r dyfodol a thystiolaethau eraill sy'n ymddangos dros fywyd y cynllun.

## Cyfranogiad

Roedd cael y cyhoedd i gyfranogi'n allweddol i ddatblygu'r asesiad llesiant drwy broses gyfranogi'n *Ein Sir Fynwy*. Cyflawnwyd hwn wyneb yn wyneb ar y stryd, mewn digwyddiadau, ysgolion a grwpiau cymunedol, ynghyd â thrwy arolwg ar-lein, Twitter, Facebook a Monmouthshire Made Open. Mae'r mewnbwn hwn oddi wrth bobl ar lawr gwlad wedi llywio datblygiad y cynllun llesiant hwn.

Cynhaliwyd ymgynghoriad 12-wythnos rhwng Tachwedd 2017 a Chwefror 2018 i gasglu meddyliau a syniadau ar y cynllun llesiant a llywio'r camau gweithredu y gellir eu cymryd i gyflawni amcanion a'r camau a amlinellir yn y cynllun. Buom mewn cysylltiad â channoedd o bobl, mewn amrywiaeth o leoliadau a thrwy gyfrwng amrywiol ddulliau. Casglwyd ymatebion drwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol, Monmouthshire Made Open, arolwg ar-lein, arolygon papur, fforymau'n targedu pobl oedd yn fwy anodd cael gafael arnynt megis pobl ifanc, pobl hŷn a phobl ag anableddau a thrwy wahoddiad. Rhannwyd y cynllun llesiant hefyd drwy bartneriaethau strategol ByGC Sir Fynwy, Cynghorau Tref a Chymuned a rhwydweithiau eraill. Mae manylion pellach ar ganlyniadau'r cyfranogiad yn yr Atodiad.

## Integreiddio

Drwy gydol prosesau'r asesiad llesiant a'r cynllun llesiant, mae ByGC wedi gosod pwys mawr ar integreiddio a'r angen i wneud yn siŵr y gwneir cysylltiadau rhwng materion gwahanol. Maent wedi gweithio'n galed i sicrhau nad ystyriwyd yr amcanion a'r camau ar eu pennau eu hunain. Er enghraifft, penderfynodd y Bwrdd Golygyddol gynnal un gweithdy yn edrych ar bob un o'r pedwar amcan, yn hytrach na gweithdai ar wahân i bob un, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu hystyried yn gysylltiedig â'i gilydd. Rhoddwyd amser yn y gweithdai i gynrychiolwyr symud rhwng amcanion fel bod agwedd gydgysylltiedig wedi cael ei chymryd. Yn yr un modd, mae'r camau a amlinellwyd ar gyfer pob un o'r amcanion isod yn dangos pa rai o'r amcanion eraill y cânt effaith arnynt. Bydd cymryd bod datrysiadau wedi cael eu hintegreiddio'n allweddol pan gyflenwir yr amcanion, a rhoddir ystyriaeth a ddylid defnyddio Gwerthusiad o Genedlaethau'r Dyfodol (yn debyg i'r un a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Fynwy neu Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol y Comisiynydd) ar gyfer prosiectau ByGC, er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu at y nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio. Gallai fod yn briodol i'r gwerthusiadau hyn gael eu cwblhau gan y sefydliad arweiniol yn unol â threfniadau llywodraethiant cyrff cyhoeddus unigol.

Bydd angen cyflawni'r camau yn y Llesiant mewn modd integredig. Bydd y gwaith i ddatblygu pob un o'r camau'n effeithio'n anochel ar gamau eraill, ac mae'n debygol y bydd rhai o'r camau'n cael eu datblygu gyda'i gilydd i leihau'r tebygolrwydd o "weithio ar eich pen eich hun". Bydd angen ystyried yn ogystal fel yr integreiddir dyheadau ByGC, sy'n drawstoriadol, wrth ddatblygu'r camau.

Mae'r matrics canlynol yn dangos fel bydd y camau (a grynhoir ar yr echel) yn effeithio ar ei gilydd, a'r effeithiau mwyaf arwyddocaol wedi'u lliwio'n las.

**Sut mae pob un o'r camau'n integreiddio gyda chamau**

| | PPAau | Gordewdra | Llesiant mewn Ysgolion | Iechyd Meddwl | Tai | Byw integredig | Dinasyddiaeth weithredol | Model gofal | Rhwydweithiau cefnogaeth | Gwytnwch yr ecosystem | Dylunio a Chynllunio | Deunyddiau Adnewyddadwy | Teithio Llesol/Cynaliadwy | Addysg gynaliadwyedd | Bargen Ddinesig | Cysylltiadau Busnes Addysg | Trafnidiaeth Wledig | Rhwydweithiau Busnes | Canolfannau Rhagoriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PPAau | ■ | | ● | ● | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gordewdra | | ■ | | | | | | | | ● | ● | | ● | ● | | | | | |
| Llesiant mewn Ysgolion | ● | | ■ | ● | | | | | | | | | | ● | | ● | | | ● |
| Iechyd Meddwl | ● | | ● | ■ | | | | | | | | | | ● | | | | | |
| Tai | | | | | ■ | ● | | ● | ● | | ● | ● | ● | | ● | | | | |
| Byw pontio'r cenedlaethau | | | | | ● | ■ | ● | ● | ● | | ● | | | | | | | | |
| Dinasyddiaeth weithredol | | | | | | ● | ■ | ● | ● | ● | | | | ● | | ● | ● | | |
| Model gofal | | | | | ● | ● | ● | ■ | ● | | | | | | | | | | |
| Rhwydweithiau cefnogaeth | | | | | ● | ● | ● | ● | ■ | | | | | | | | | | |
| Gwytnwch yr ecosystem | | ● | | | | | ● | | | ■ | ● | ● | ● | ● | | | | | ● |
| Dylunio a Chynllunio | | ● | | | ● | ● | | | | ● | ■ | ● | ● | | | | ● | | |
| Deunyddiau Adnewyddadwy | | | | | ● | | | | | ● | ● | ■ | ● | ● | | | ● | ● | |
| Teithio Llesol/ Cynaliadwy | | ● | | | ● | | | | | ● | ● | ● | ■ | ● | ● | | ● | | |
| Addysg gynaliadwyedd | | ● | ● | ● | | | ● | | | ● | | ● | ● | ■ | | ● | | | |
| Bargen Ddinesig | | | | | ● | | | | | | | | ● | | ■ | ● | ● | ● | ● |
| Cysylltiadau busnes addysg | | | ● | | | | ● | | | | | | | ● | ● | ■ | | | ● |
| Trafnidiaeth wledig | | | | | | | ● | | | | ● | ● | ● | | ● | | ■ | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhwydweithiau busnes | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Canolfannau rhagoriaeth | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

## Cydweithredu

Mae cydweithredu'n hanfodol i lwyddiant ByGC ac ni ellir cyflenwi'r amcanion a ddewiswyd heb gydweithredu. Mae partneriaid ByGC wedi gweithio'n glos gyda'i gilydd i ymgysylltu gyda chymunedau, rhannu data a chynhyrchu asesiad llesiant. Mae'r Bwrdd Golygyddol wedi parhau i gwrdd yn ystod datblygu'r amcanion a'r cynllun llesiant. Penderfynodd ByGC ofyn i'r Bwrdd Rhaglenni ymgymryd yn gychwynnol â datblygu'r amcanion, gan gydnabod y sgiliau a'r arbenigedd a feddir gan haenau eraill o'r staff o fewn eu sefydliadau. Roedd Bwrdd Rhaglenni ByGC (sy'n adlewyrchu partneriaid ByGC (ar lefel dirprwy/Prif Swyddog/ Penaethiaid Gwasanaeth) yn gallu cymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r heriau a orweddai o fewn pedwar amcan ByGC, sydd wedi helpu i drwytho meddylfryd ByGC.

Cynhaliwyd gweithdai partneriaeth i drwytho gweithdy ByGC ym mis Hydref 2017, gan roddi i ystod eang o bartneriaid y cyfle i rannu'u barn a'u profiadau gyda ByGC. Yng ngweithdy nis Hydref, cymerodd ystod eang o bartneriaid ac arbenigwyr ar draws Cymru ran mewn trafodaethau i ddatblygu'r camau yn y cynllun hwn.

O fis Hydref 2017 i fis Ionawr 2018, dygwyd yr amcanion arfaethedig at bob partneriaeth strategol , ynghyd â ByGC a'r Bwrdd Rhaglenni, er mwyn eu hystyried a'u trafod, a chychwyn datblygu'u hymateb.

Ni ellir mynd i'r afael â'r heriau sy'n codi o'r Asesiad Llesiant ond drwy weithio mewn partneriaeth a bydd angen cydweithrediad i fynd i'r afael â'r camau a ganfuwyd yn yr amcanion. Mae angen i bartneriaid ByGC ddeall yn llawn eu cyfraniad ar y cyd i bob amcan a'r modd y gallant weithio'n well gyda'i gilydd i gyflawni camau yn y dyfodol. Bydd y cynllun gweithredu i'w ddatblygu'n dynodi partner arweiniol a/neu bartneriaeth strategol ar gyfer pob cam a fydd yn gyfrifol am gydgysylltu'r gweithredu i gyflawni'r cam hwnnw. Wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu, fe ddynodir yn ogystal gydweithredwyr posib ehangach a chysylltir â hwy i fod o gymorth i gyflawni'r camau.

Mewn rhai achosion, gellid gwneud y cydweithredu hwn ar lefel Gwent, e.e. drwy waith Grŵp Asesu Llesiant Strategol Gwent.

## Atal

Mae cymryd agwedd ataliol drwy weithredu nawr i atal problemau tymor hir yn ganolog i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn ganolog i'r ffordd mae ByGC yn gweithio. Mae'r camau y bydd ByGC yn canolbwyntio arnynt wedi'u hamlinellu yn y Cynllun i gyd yn canolbwyntio ar yrr hyn y gellir ei wneud nawr i atal problemau tymor hir. Mae ByGC yn cydnabod, tra gallai ymyrraeth nawr olygu cost tymor byr, bydd agwedd ataliol yn arbed arian ac yn atal problemau yn y tymor hwy.

Fel y datblygir manylion y cynllun gweithredu dilynol, gan ddefnyddio'r dull diemwnt ddwbl a amlinellir yn yr Atodiad, rhoddir ystyriaeth fanwl i sicrhau y gall y camau a gymerir nawr atal

problemau rhag gwaethygu a'r modd y bydd hyn yn llywio'r camau a gymerir gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Egluro'r amcanion

Mae hwn yn egluro'r templed a ddefnyddir i amlinellu'r amcanion llesiant.

### Darganfod – Dadansoddi sefyllfa

Mae'r asesiad llesiant yn darparu dadansoddiad o lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Fynwy gyfan ynghyd ag ardaloedd mwy lleol. Mae'r adran hon yn amlinellu'r materion allweddol perthnasol a'r heriau o'r asesiad llesiant y bydd gan yr amcan effaith arnynt.

### Diffinio - Dadansoddi ymateb

Wedi'i drwytho a'i ffurfio gan y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan yr Asesiad Llesiant mae'r adran hon yn disgrifio â mwy o fanylder ddadansoddiad cychwynnol o faterion a themâu unigol a drwythodd ddatblygiad yr amcan.

### Nodau llesiant y cyfrennir atynt

Mae'r tabl yn dangos fel mae pob un o'r amcanion yn cyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol. Mae nifer o'r amcanion yn cwmpasu llawer o'r nodau llesiant, a gallai rhai o bosib gyfrannu hyd yn oed at yr holl nodau. Mae'r nodau y tynnwyd sylw atynt yn dangos lle mae'r cyfraniad mwyaf arwyddocaol gan yr amcan i gyflawni nod.

Rhoddir disgrifiad byr i ddangos fel y bydd y camau'n mwyhau cyfraniad i bob un o'r nodau. Bydd manylion pellach o'r modd y bydd y cam yn mwyhau cyfraniad i'r amcanion yn ymddangos fel y caiff cynllun gweithredu manwl ei ddatblygu i gyflawni'r camau.

### Cyflenwi'r Datrysiad


Mae hwn yn tynnu sylw at y camau allweddol y bwriada ByGC eu cymryd i gwrdd â'r amcan. Datblygir cynllun datblygu unwaith y cyhoeddir y Cynllun Llesiant a fydd yn rhoi manylion o'r ffordd y cyflenwir y camau.

**Cysylltiadau rhwng amcanion**

Mae hwn yn dynodi lle bydd camau i gyflenwi'r amcan hefyd yn cyfrannu at gwrdd ag un arall o'r amcanion. Dangosir isod y symbolau sy'n cynrychioli pob amcan:


Darparu'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc


Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig


Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra rhwystrir ac addasir i effaith newid hinsawdd.


Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir â chysylltiadau da ac yn ffynnu'n economaidd.

**Cyfraniad i Nodau Llesiant**

Mae'r tabl yn dangos fel y mae pob un o'r camau'n cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. Gallai sawl cam o bosib gyfrannu at yr holl nodau, ond mae'r tabl yn dangos lle bydd y cyfraniadau mwyaf arwyddocaol.

**Pa mor hir y cymer camau i wella llesiant?**

NID yw'r cynllun yn blaenoriaethu neu'n gosod amserlen ar gyfer gweithredu – bydd hyn yn dilyn yn y cynllun gweithredu. Fodd bynnag, rhoddir syniad o'r graddfeydd amser bras, y tymor byr (hyd at 5 mlynedd), y tymor canolig (rhwng 5 a 10 mlynedd) neu'r tymor hir (mwy na 10 mlynedd), y byddai unrhyw raglenni a osodir yn eu lle i gyflawni'r camau yn debygol o sicrhau gwelliannau mesuradwy mewn llesiant.

# Amcan Llesiant – Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a phobl ifanc

## Darganfod – Dadansoddiad o'r sefyllfa

Tynnodd yr Asesiad Llesiant sylw at yr heriau a'r materion allweddol ar gyfer Sir Fynwy, y rheiny gaiff eu heffeithio'n uniongyrchol gan yr amcan hwn yw:

- Mae lefelau cyflog ar gyfer swyddi lleol yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r DU. Wrth eu cyplysu â phrisiau eiddo uchel, a gyda thir cyfyngedig ar gael ar gyfer datblygiadau tai yn y dyfodol  mae hyn yn ei gwneud yn anodd i bobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol  i fyw a gweithio'n lleol.
- Mae anghyfartaledd rhwng cymunedau ac o fewn cymunedau. Mae hyn yn cynnwys anghyfartaledd mewn cyrhaeddiad addysgol, lefelau cyflog a chanlyniadau iechyd. Tynnir sylw eglur at hyn mewn sir lle mae pobl, ac yn arbennig plant, yn byw mewn tlodi yn agos i ardaloedd o gyfoeth gwirioneddol. Dengys ymchwil fod gan anghyfartaledd effaith negyddol ar sawl agwedd o lesiant gyda chymdeithasau mwy cyfartal yn profi gwell canlyniadau.
- Rydym yn gweithredu o fewn economi sy'n mynd yn gynyddol fyd-eang. Mae patrymau cyflogaeth yn newid gyda mwy o gontractau dim oriau, contractau dros dro, a gwaith llawrydd. Yn y cyfamser gallai datblygiadau technolegol megis awtomeiddio, roboteg a chynnydd mewn deallusrwydd artiffisial arwain at oddeutu traean y swyddi sydd eisoes yn bodoli yn y DU ddiflannu sy'n golygu y bydd angen carfan o sgiliau gwahanol iawn ar weithlu'r yfory i'r sgiliau mae'r rheiny sy'n gadael yr ysgol heddiw yn eu meddu.
- Mae angen cynyddu ymddygiadau iach a gyda thystiolaeth gynyddol y gall yr hyn a ddigwydd yn ystod y 1,000 o ddiwrnodau cyntaf bywyd plentyn o'i feichiogi i'w ail ben-blwydd gael effaith fawr ar ba mor iach a hapus y bydd wrth dyfu i fyny.
- Mae plant sy'n profi plentyndod yn llawn straen ac o ansawdd wael yn fwy tebygol o fabwysiadu clefydau ac afiechydon yn hwyrach yn eu bywydau. Gall hyn gael ei ailadrodd drwy'r cenedlaethau ac felly gall atal y profiadau hyn neu leihau'u heffeithiau fod o fudd i genedlaethau'r dyfodol ynghyd â'r cenedlaethau cyfredol.
- Mae llawer o bobl agored i niwed yn ein cymdeithas a gall hyn godi o nifer o bethau megis iechyd meddwl neu anabledd corfforol neu ffactorau megis oedran, ynysu gwledig ac unigrwydd. Gall adnabod gweithgaredd ataliol ac agweddau integredig amddiffyn pobl rhag niwed difrifol a gwella llesiant.

## Diffinio – Dadansoddiad o'r ymateb

Mae'r amcan yn darparu ffocws bras ar draws cychwyn bywydau pobl o feichiogi i fyd oedolion cynnar. Dengys ymchwil fod gan y mil o ddiwrnodau cyntaf ym mywyd plentyn o'i feichiogi i'w ail ben-blwydd effaith sylweddol ar ei ganlyniadau. Gall dod i gysylltiad â Phrofiadau Plentyndod Andwyol (PPAau) newid y modd mae ymennydd plentyn yn datblygu a'i fod yn fwy tebygol o fabwysiadu ymddygiad sy'n niweidio iechyd. Mae'r ymateb i hyn yn Sir Fynwy yn gofyn am ddealltwriaeth a chydlynu pellach gydag ystod o bartneriaid i ddatblygu agwedd hirdymor, o ystyried cymhlethdod materion cysylltiedig.

Mae rhan o'r ymateb yn cynnwys ByGC a'r asiantaethau partner yn cael swyddogaeth bwysig i uno ymatebion ac adnoddau i ganolbwyntio ar ymyriadau rhagweithiol a galluogi plant a theuluoedd i gael mynediad i gymorth integredig cyflawn ar draws asiantaethau /adrannau ac elwa o rannu gwybodaeth

ddi-dor.

Mae galluogi a grymuso plant a phobl ifanc i gymryd mwy o reolaeth dros eu hiechyd eu hunain hefyd yn bwysig i leihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol oni bai y bydd yn angenrheidiol. Mae hyn yn cysylltu â'r gweithredu "newid demograffig".

Mae hyrwyddo ymddygiad iach sy'n cefnogi iechyd corfforol a lles meddyliol plant a phobl ifanc yn ffocws pwysig ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol, yn enwedig â gordewdra plentyndod yn broblem gynyddol. Mae cynllun gweithredu gordewdra plentyndod eisoes yn Sir Fynwy, yn cael ei gymeradwyo gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn gysylltiedig ag "agwedd yr amgylchedd naturiol a newid hinsawdd" bydd galluogi plant i fod yn egnïol a chymryd rhan mewn chwarae, yn enwedig chwarae y tu allan, yn bwysig, nid yn unig ar gyfer gordewdra ond hefyd ar gyfer datblygiad ehangach plentyn. Dynodwyd mynediad i fannau agored fel maes sydd angen gwella a gallai newid ymddygiad fod yn ofynnol hefyd (gan gynnwys ymddygiad oedolion) i gefnogi hyn.

Deil ffocws ar berfformiad academaidd mewn ysgolion a dealltwriaeth o feysydd sydd angen eu gwella. Yn y dyfodol mae angen dealltwriaeth lawnach o'r hyn mae'r 'gorau' i blant yn edrych mewn gwirionedd drwy sicrhau na chaiff plant nac ysgolion eu mesur yn ôl canlyniadau academaidd yn unig, ond drwy ddatblygu gwell dealltwriaeth o lesiant plant a sut i'w fesur.

Yn gysylltiedig â'r agwedd "sir ffyniannus", made tueddiadau pellach yn dynodi bod technoleg yn debygol o gymryd swyddogaeth arweiniol, a gallai ddisodli llawer o swyddi. Mae angen i ni weithio'n agos gydag addysg uwch a busnesau i sicrhau bod plant a phobl ifanc wedi'u paratoi'n well ac yn fwy na pharod ar gyfer y sgiliau sydd eu hangen arnynt yn lleol ac yn fyd-eang yn y dyfodol.

Datblygwyd Cynllun Ardal Gwent dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant sy'n amlinellu'r mesurau i'w cymryd i fynd i'r afael ag anghenion plant a phobl ifanc, ynghyd ag eraill, a fydd yn cyfrannu at helpu i gyflenwi'r amcan hwn.

## Cyfrannodd nodau llesiant at y canlynol

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru Lewyrchus (1) | Cymru Gydnerth (2) | Cymru Iachach (3) | Cymru sy'n fwy Cyfartal (4) | Cymru o gymunedau cydlynus (5) | Cymru â diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (6) | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (7) | |

Er mwyn cael gwaith a chyfrannu at Gymru lewyrchus, mae'n hanfodol fod pobl ifanc yn gallu datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol. Mae eu hiechyd corfforol a meddyliol yn allweddol iddynt ddatblygu eu potensial a dod yn oedolion iachus fel rhan o Gymru iachach, tra cyfranna'u cyfranogiad cynyddol mewn chwaraeon at Ddiwylliant Bywiog. Mae'n hanfodol bod gan yr holl blant a'r bobl ifanc fynediad cyfartal i addysg, cyfleoedd a'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd. Bydd hyn yn helpu pobl ifanc i gyfrannu i'w cymuned mewn modd cadarnhaol fel y deuent yn oedolion, gan helpu i ddatblygu Cymunedau Cydlynus.

## Cyflenwi'r Datrysiad

| Bydd ByGC yn canolbwyntio ar y canlynol: | Cysylltiadau amcan | Nodau | Effaith |
|---|---|---|---|
| Mynd i'r afael ag achosion PPAau a pharhad problemau o genhedlaeth i genhedlaeth mewn teuluoedd. |  | 1, 3, 4, 5 | Hir |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gweithio i fynd i'r afael ag anweithgarwch corfforol a gordewdra er mwyn gwella iechyd a llesiant cenedlaethau'r dyfodol. | | 3, 5, 6 | Hir |
| Gweithio i sicrhau bod ysgolion a gwasanaethau i blant yn canolbwyntio ar lesiant ac agwedd fwy crwn na chanlyniadau academaidd pur yn unig. | | 1, 3, 4 | Canolig |
| Cefnogi cadernid plant a phobl ifanc mewn perthynas â'u hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol. | | 3, 4 | Byr |

# Amcan Llesiant – Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd

## Darganfod – Dadansoddiad o'r sefyllfa

Tynnodd yr Asesiad Llesiant sylw at yr heriau a'r materion allweddol ar gyfer Sir Fynwy, y rheiny gaiff eu heffeithio'n uniongyrchol gan yr amcan hwn yw:

- Mae gan Sir Fynwy lefelau uchel o gyfalaf cymdeithasol a gwirfoddoli. Drwy gymryd agwedd yn seiliedig ar asedau a llefydd mae cyfle i wella llesiant.
- Mae'r lefelau cyflog sydd ar gael ar gyfer swyddi lleol yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r DU. Wrth eu cyplysu â phrisiau eiddo uchel, a gyda thir cyfyngedig ar gael ar gyfer datblygiadau tai yn y dyfodol mae hyn yn ei gwneud yn anodd i bobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol i fyw a gweithio'n lleol.
- Daw poblogaeth sy'n heneiddio â nifer o gyfleoedd, fodd bynnag, mae heriau'n ogystal ar gyfer darpariaeth gwasanaethau a chynnydd yn nifer y bobl sy'n byw gyda chyflyrau tymor hir a fydd yn creu pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae llawer o bobl agored i niwed yn ein cymdeithas a gall hyn godi o nifer o bethau megis iechyd meddwl neu anabledd corfforol neu ffactorau megis oedran, ynysu gwledig ac unigrwydd. Gall adnabod gweithgaredd ataliol ac agweddau integredig amddiffyn pobl rhag niwed difrifol a gwella llesiant.

## Diffinio – Dadansoddiad o'r ymateb

Mae demograffeg newidiol Sir Fynwy yn cynnig nifer o heriau a hefyd nifer o gyfleoedd i wella llesiant. Mae tueddiadau'r dyfodol yn dangos newidiadau ym mhroffil oedran y sir gyda chynnydd sylweddol yng nghymhareb pobl hŷn i bobl iau.

Gallai'r boblogaeth sy'n heneiddio gynyddu'r galw am ystod o wasanaethau yn y sir. Tra bydd wastad angen y gwasanaethau cymorth hyn, drwy ganolbwyntio ar lesiant a datblygu pobl wydn, teuluoedd a chymunedau a all alluogi pobl i gefnogi'u hunain a lleihau'r angen a'r galw am ymyrraeth gan wasanaethau statudol.

Mae rhyngddibyniaeth bwysig gyda'r amcan "sir ffyniannus" ar wneud y sir yn lle hyfyw a fforddiadwy i bobl ifanc fyw a gweithio ynddi. Bydd cadw a denu pobl ifanc yn cefnogi hyfywedd hirdymor cymunedau gan ddarparu demograffeg fwy cytbwys, i gefnogi pobl hŷn. Mae gofalwyr ifanc yn chwarae rôl bwysig ac mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cefnogi.

Mae hyn yn cyfateb i'r cyfraniad mae pobl hŷn yn ei wneud i'w cymunedau, a gaiff ei danbrisio'n aml. Mae pobl hŷn yn gaffaeliad sylweddol i Gymru ac mae ysbryd cymunedol cryf yn aml mewn cymunedau gwledig ac yn ganolog iddo mae nifer o wirfoddolwyr hŷn sy'n chwarae rôl hanfodol yn eu cymunedau ac yn meddu ar gyfoeth o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Dynodwyd y cyfalaf cymdeithasol hwn hyn Sir Fynwy fel cryfder arbennig y gellir adeiladu arno mewn cymunedau ac mewn cefnogi pobl iau. Mae mwyhau caffaeliad cymunedol a dinasyddiaeth weithredol yn hanfodol yn Sir Fynwy i gyflenwi pob un o'r pedwar amcan.

Dylid hefyd edrych ar ein pobl hŷn fel caffaeliad i'n heconomi, maent yn darparu gofal a chefnogaeth i aelodau eraill o'r teulu, gan roi cyfle i rieni weithio drwy ddarparu gofal plant gwerthfawr.

Mae'r llefydd mae pobl yn byw, gweithio a chymdeithasu yn ffactor pwysig mewn llesiant. Mae blaengynllunio ar gyfer cymunedau sy'n oed-gyfeillgar ac yn wydn i newidiadau mewn demograffeg yn ganolog i hyn, er enghraifft, cynllunio gwasanaethau a seilweithiau megis ysgolion, gofal iechyd a thai sy'n cefnogi aneddiadau ar gyfer pontio'r cenedlaethau.

Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo ar lefel Gwent ar ragnodi cymdeithasol, sy'n galluogi pobl o bob oedran i gael eu hatgyfeirio i ystod o wasanaethau llesiant anghlinigol yn seiliedig ar leoliad er mwyn mynd i'r afael ag anghenion pobl yn lleol mewn modd holistaidd ar draws ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Datblygwyd Cynllun Ardal Gwent dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn amlinellu lefel y canlyniadau a'r blaenoriaethau ar gyfer gweithio rhanbarthol ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. Bydd hyn yn cefnogi llesiant demograffeg amrywiol a bydd yn cyfrannu at helpu i gyflenwi'r amcan hwn.

## Cyfrannodd nodau llesiant at y canlynol

| Cymru Lewyrchus (1) | Cymru Gydnerth (2) | Cymru Iachach (3) | Cymru sy'n fwy Cyfartal (4) | Cymru o gymunedau cydlynus (5) | Cymru â diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (6) | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (7) |
|---|---|---|---|---|---|---|

Er mwyn cael Cymunedau Cydlynus gyda chyfleoedd cyfartal i bobl o bob oedran allu byw a gweithio yn Sir Fynwy, mae'n hanfodol bod tai addas a fforddiadwy ar gyfer pawb. Bydd gan Gymuned Gydlynus gyfleusterau yn eu lle i edrych ar ôl pobl o bob oedran. Er bod cyflogaeth â thal yn allweddol ar gyfer Cymru Lewyrchus, mae gan wirfoddoli a dinasyddiaeth weithredol swyddogaeth allweddol i'w chwarae yn ogystal ac maent yn cyfrannu at adeiladu cymunedau a gwella iechyd.

## Cyflenwi'r Datrysiad

| Bydd ByGC yn canolbwyntio ar y canlynol: | Cysylltiadau amcan | Nodau | Effaith |
|---|---|---|---|
| Ail fynd i'r afael â'r cyflenwad a'r gymysgedd o stoc tai i sicrhau bod tai addas a fforddiadwy ar gael i bob grŵp demograffig | | 1, 3, 4, 5 | Hir |
| Dysgu o arfer dda mewn mannau eraill i ymchwilio i'r posibilrwydd o fyw ar gyfer pontio'r cenedlaethau, nawr ac i'r dyfodol. | | 4, 5 | Canolig |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol drwy wirfoddoli, bancio-amser cyfnewid sgiliau person i berson a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol | | 1, 3, 5 | Byr |
| Datblygu model gofalu a adeiladwyd ar lesiant ac edrych ar ôl ein gilydd yn hytrach na thrwy ddarpariaeth gofal ffurfiol | | 3, 4, 5 | Canolig |
| Datblygu rhwydweithiau ar gyfer pob oedran sy'n cefnogi llesiant pobl yn eu cymunedau lleol, gan gynnwys rhagnodi cymdeithasol (gweler uchod am eglurhad). | | 1, 3, 4, 5 | Byr |

# Amcan Llesiant - Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra cwtogir effaith newid hinsawdd ac addasir iddo

## Darganfod – Dadansoddiad o'r sefyllfa

Tynnodd yr Asesiad Llesiant sylw at yr heriau a'r materion allweddol ar gyfer Sir Fynwy, y rheiny gaiff eu heffeithio'n uniongyrchol gan yr amcan hwn yw:

- Mae trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn ei gwneud yn anos i bobl gael mynediad i swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau. Gallai hyn gael ei waethygu drwy brisiau tanwydd cynyddol ond mae hefyd gyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus drwy'r Fargen Ddinesig a chynnydd mewn technoleg megis cerbydau wedi'u hawtomeiddio.
- Mae llygredd aer yn achosi problemau sylweddol i iechyd pobl ac mae'n un o'r cyfranwyr mwyaf at farwolaethau cyn pryd yng Nghymru. Yn Sir Fynwy achosir y problemau mwyaf gan allyriadau cerbydau ac mae hyn yn amlwg iawn ym Mrynbuga a Chas-gwent.
- Mae llygredd dŵr yn bryder o nifer o ffynonellau, gan gynnwys newidiadau mewn arferion amaethyddol.
- Mae lleihau lefelau gweithgarwch corfforol ynghyd â newidiadau dietegol yn arwain at lefelau cynyddol o ordewdra. Mae hyn yn debygol o arwain at gynnydd mewn cyflyrau tymor hir sy'n gysylltiedig ag ef megis diabetes math 2.
- Mae datblygiad, newid hinsawdd a llygredd i gyd yn peri peryglon i'r amgylchedd naturiol ac adeiledig Mae'r rhain yn ganolog i'n llesiant ac mae angen eu hamddiffyn a'u cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Mae newid hinsawdd yn debygol o gynyddu'r perygl o lifogydd, ynghyd â nifer o beryglon eraill, ac felly fe fydd lleihau newid hinsawdd a gwytnwch adeiladu yn hanfodol ar gyfer cymunedau.

## Diffinio – Dadansoddiad o'r ymateb

Mae adnoddau naturiol, megis aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd, yn darparu'n hanghenion mwyaf sylfaenol, gan gynnwys bwyd, egni a diogelwch. Mae angen i'n hecosystemau fod mewn cyflwr da ac yn wydn er mwyn ein cadw'n iach, yn cyfrannu at lesiant corfforol a seicolegol ac yn darparu cyfraniadau hanfodol i'r economi drwy dwristiaeth, amaethyddiaeth, coedwigaeth a mwy. Oherwydd bod yr adnoddau naturiol hyn yn allweddol i gymaint o agweddau o lesiant, ni ellir eu hystyried ar wahân.

Mae'r heriau sy'n wynebu'n hamgylchedd naturiol yn lluosog – mae newid hinsawdd, datblygiad ac arferion rheoli tir newidiol i gyd yn fygythiadau posib i'n hadnoddau naturiol a'n hecosystemau. Mae mynd i'r afael â'r heriau hyn yn hawlio datrysiadau integredig a chydgysylltiedig a gaiff eu datblygu a'u

cyflenwi wrth i'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol weithio gyda'i gilydd. Mae angen i ni edrych ar addasu i newid hinsawdd ynghyd â lleihau'n cyfraniad ato. Mae Deddf Amgylchedd (Cymru), gyda chynlluniau ardal dilynol, yn gweithio ochr yn ochr â'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae gan y sector cyhoeddus yng Nghymru botensial aruthrol i ddefnyddio'i bŵer prynu ar y cyd i gefnogi'r economi leol drwy bennu a phrynu bwyd, ynni, nwyddau a gwasanaethau'n lleol. Gall caffael hefyd gael effeithiau byd-eang arwyddocaol ac mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i fod yn fyd-eang gyfrifol. Gyda Brexit ar y gorwel gallai fod potensial i wasanaethau cyhoeddus gael mwy o hyblygrwydd yn eu penderfyniadau prynu, creu swyddi rhanbarthol a thwf busnesau tra cwtogir trafnidiaeth a llygredd. Mae Brexit hefyd yn ychwanegu at yr ansicrwydd i nifer o sectorau, gan gynnwys amaethyddiaeth sy'n sector pwysig yn Sir Fynwy.

Mae gan Sir Fynwy botensial gwych i gynhyrchu ynni adnewyddadwy'n lleol. Mae sawl cwmni buddiannau cymunedol eisoes yn bodoli yn y sir a bydd datblygu modelau busnes mwy lleol ar gyfer ynni adnewyddadwy a generadu gwres, storio a dosbarthu yn cynyddu gwytnwch ynni ynghyd â lleihau allyriadau carbon.

Er mwyn i lygredd aer fod o fewn cyfyngiadau diogel ar gyfer holl breswylwyr Sir Fynwy, mae modd mynd i'r afael â ffynonellau trafnidiaeth drwy ddatblygu'r isadeiledd sydd ei angen ar gyfer defnydd cerbydau amgen, megis cerbydau'n cael eu pweru gan drydan, sydd newydd ddechrau cael eu datblygu yn 2017 yn Sir Fynwy, a threialu maes o law yn y sir y cerbyd Rasa gaiff ei bweru gan hydrogen. Ochr yn ochr â hyn, mae datblygu datrysiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol i fynd i'r afael ag ynysu gwledig a mynediad i swyddi a gwasanaethau.

Bydd hyrwyddo teithio llesol (cerdded a beicio) yn yr ardaloedd gweledig a threfol, a defnyddio'r cyfleoedd a gynigir gan y Ddeddf Teithio Llesol yn gymorth i leihau llygredd aer ond fe ddaw â buddiannau iechyd i bob oedran hefyd. Mae angen cynllunio a dylunio gofalus, gan gynnwys defnyddio dull Seilwaith Gwyrdd i ddatblygu cymunedau diogel, iach a bywiog sydd â mynediad da i lwybrau diogel a hygyrch a mannau agored.

Er mwyn adeiladu gwytnwch rhywogaethau ac ecosystemau yn wyneb tuedd debygol o hafau sychach a chynhesach, gaeafau gwlypach, neu bwysau eraill ar ein hamgylchedd naturiol, mae angen gweithredu bioamrywiaeth ar raddfa tirwedd ym maes bioamrywiaeth. Mae angen i gynefinoedd fod wedi'u cysylltu'n dda er mwyn bod yn wydn. Mae partneriaethau llwyddiannus eisoes yn bodoli, megis Sefydliad Gwy a'r Wysg a'r prosiect Lefelau Byw, ac mae angen cefnogi'r partneriaethau hyn a sefydlu rhai tebyg. Mae gweithredu ar raddfa tirwedd hefyd â'r potensial i ddarparu rheolaeth sylweddol ar berygl llifogydd naturiol ac wrth leihau'r perygl o lifogydd daw buddiannau economaidd, cymdeithasol ac iechyd.

Yn yr holl feysydd hyn, mae gweithio gyda phobl ifanc fydd yn gwneud penderfyniadau yn y dyfodol yn hanfodol. Drwy ysgolion, gwaith ieuenctid a grwpiau cymunedol, mae angen i bobl ifanc ddeall beth yw datblygiad cynaliadwy, gwybod paham ei fod yn bwysig, cael ysbrydoliaeth i wneud gwahaniaeth a'u galluogi i fod yn ddinasyddion mentrus, creadigol a gofalgar y dyfodol.

## Cyfrannodd nodau llesiant at y canlynol

| Cymru Lewyrchus (1) | Cymru Gydnerth (2) | Cymru Iachach (3) | Cymru sy’n fwy Cyfartal (4) | Cymru o gymunedau cydlynus (5) | Cymru â diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (6) | Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang (7) |
|---|---|---|---|---|---|---|

Ynghyd â bod yn allweddol i lesiant amgylcheddol, mae amgylchedd Gwydn yn hanfodol i’r economi leol, i iechyd corfforol a meddyliol ac i adeiladu Cymunedau Cydlynus. Er mwyn bod yn Gyfrifol Fyd-eang, mae angen i ni weithio gyda’n gilydd i leihau’r carbon a’r llygredd rydym yn eu hallyrru drwy fynd i’r afael â thrafnidiaeth gynaliadwy a’n defnydd o ynni a’r broses o’i eneradu. Yn allweddol i’r amcan hwn mae gweithio gyda phlant a phobl ifanc i’w helpu i ddeall eu swyddogaeth wrth edrych ar ôl eu hamgylch, lleihau’n heffaith amgylcheddol a chydnabod pwysigrwydd “meddwl yn fyd-eang a gweithredu’n lleol.”

## Cyflenwi’r Datrysiad

| Bydd ByGC yn canolbwyntio ar y canlynol: | Cysylltiadau amcan | Nodau | Effaith |
|---|---|---|---|
| Gwella gwytnwch ecosystemau drwy weithio ar raddfa fwy (tirwedd) i reoli bioamrywiaeth a mwyhau buddiannau megis rheoli perygl llifogydd naturiol. | | 1, 2, 3 | Hir |
| Sicrhau bod dylunio a pholisi cynllunio yn cefnogi cymunedau cryf, bywiog ac iach sy’n dda i bobl a’r amgylchedd. | | 1, 2, 3, 5, 7 | Hir |
| Galluogi cynlluniau ynni adnewyddadwy, yn enwedig cynlluniau sy’n eiddo i’r gymuned, a datblygu datrysiadau newydd gan gynnwys storio, ynni clyfar, gwres a chyflenwadau lleol. | | 1, 5, 7 | Byr |
| Galluogi teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy i wella ansawdd aer a rhoi manteision iechyd eraill yn ogystal. | | 1, 5, 6, 7 | Canolig |
| Gweithio gyda phlant a phobl ifanc i wella’u hymwybyddiaeth, eu dealltwriaeth a’u gweithredu dros ddatblygiad cynaliadwy a’u gwneud yn ddinasyddion cyfrifol byd-eang y dyfodol. | | 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7 | Hir |

# Amcan Llesiant – Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sydd â chysylltiadau da ac sy'n ffynnu'n economaidd.

## Darganfod – Dadansoddiad o'r sefyllfa

Tynnodd yr Asesiad Llesiant sylw at yr heriau a'r materion allweddol ar gyfer Sir Fynwy, y rheiny gaiff eu heffeithio'n uniongyrchol gan yr amcan hwn yw:

- Mae trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn ei gwneud yn anos i bobl gael mynediad i swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau. Gallai hyn gael ei waethygu drwy brisiau tanwydd cynyddol ond mae hefyd gyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer buddsoddi drwy'r Fargen Ddinesig a chynnydd mewn technoleg megis cerbydau wedi'u hawtomeiddio.
- Mae lefelau cyflog ar gyfer swyddi lleol yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r DU. Wrth eu cyplysu â phrisiau eiddo uchel, a gyda thir cyfyngedig ar gael ar gyfer datblygiadau tai yn y dyfodol mae hyn yn ei gwneud yn anodd i bobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol i fyw a gweithio'n lleol.
- Mae anghyfartaledd rhwng cymunedau ac o fewn cymunedau. Mae hyn yn cynnwys anghyfartaledd mewn cyrhaeddiad addysgol, lefelau cyflog a chanlyniadau iechyd. Tynnir sylw eglur at hyn mewn sir lle mae pobl, ac yn arbennig plant, yn byw mewn tlodi yn agos i ardaloedd o gyfoeth gwirioneddol. Dengys ymchwil fod gan anghyfartaledd effaith negyddol ar sawl agwedd o lesiant gyda chymdeithasau mwy cyfartal yn profi gwell canlyniadau.
- Mae arwyddo'r Fargen Ddinesig o £1.2 biliwn gan y deg awdurdod lleol yn Ne-ddwyrain Cymru yn dod â chyfleoedd i drosoli o gwmpas buddsoddi pellach yn y sector preifat gan greu swyddi a hybu ffyniant economaidd ar draws y rhanbarth cyfan.

## Diffinio – Dadansoddiad o'r ymateb

Mae lleoliad Sir Fynwy'n cynnig cyfle unigryw i fwyhau'i phosibiliadau fel porth i Gymru o Loegr. Mae Sir Fynwy eisoes yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ne-ddwyrain Cymru, tra dynodwyd gwella cysylltiadau gyda de-orllewin Lloegr fel cyfle i alluogi'r sir i ffynnu.

Mae tueddiadau'r dyfodol yn dynodi bod technoleg yn debygol o chwarae rôl arweiniol mewn llawer o swyddi, gan eu disodli mewn nifer o achosion. Bydd cysylltu busnes ag ysgolion, sicrhau addysg i bob oedran wedi'i theilwra ar gyfer y sgiliau y bydd angen ar bobl yn y dyfodol a deall y sgiliau presennol a'r sectorau twf posib yn helpu preswylwyr Sir Fynwy i fod yn fwy parod ac wedi cyfarwyddo â'r sgiliau sydd eu hangen yn lleol ac yn fyd-eang yn y dyfodol..

Mae seilwaith i gefnogi'r sir yn y dyfodol yn hanfodol. Deil signal a chyflymder band eang yn flaenoriaeth mewn rhai ardaloedd hyn Sir Fynwy. Mae trafnidiaeth addas yn galluogi pobl i gael mynediad i swyddi, hyfforddiant, gwasanaethau a chyfleusterau, gyda gwahanol ardaloedd yn y sir yn wynebu gwahanol heriau. Gallai datrysiadau trafnidiaeth yn y dyfodol, er enghraifft gyda thechnoleg ddi-yrrwr yn cael ei threialu a datblygiadau technolegol eraill fod yn hollol wahanol yn y gyfodol ac mae angen cynllunio ar eu cyfer nawr. Mae trafnidiaeth yn thema bwysig yn y Fargen Ddinesig.

Mae prisiau eiddo yn y sir yn uchel; mae ardaloedd yn ne'r sir, gan gynnwys ardaloedd Cas-gwent a Chil-y-coed yn arbennig yn gweld effaith y bwriad i ddiddymu tollau Pont Hafren, a chaiff hyn effaith benodol ar bobl ifanc a hen bobl fel ei gilydd. Mae amrywiaeth o anghenion tai yn Sir Fynwy, ac mae angen gwell dealltwriaeth o'r gofynion yn y dyfodol er mwyn ein helpu i flaengynllunio.

Mae busnesau yn Sir Fynwy yn llai yn gyffredinol, gan gyflogi llai na deg person. Bydd rhwydweithio, cyfathrebu ac ymgysylltu rhwng busnesau ac asiantaethau, gan gynnwys partneriaid y sector cyhoeddus yn help i gefnogi twf. Mae angen i benderfyniadau mwy gwybodus gael eu seilio ar well dealltwriaeth o anghenion busnes, y sectorau swyddi, y farchnad swyddi a gofynion sgiliau, tra defnyddir adnoddau'n effeithlon.

Mae Sir Fynwy'n adnabyddus am ei sectorau lletygarwch, amaethyddiaeth a thwristiaeth; sydd â'r potensial i fod yn ardaloedd twf, yn enwedig ar gyfer hyfforddiant arbenigol ar gyfer rhagoriaeth. Yn gysylltiedig â'r amcan "amgylchedd naturiol a newid hinsawdd", mae gan yr economi werdd hefyd y cyfle i dyfu yn Sir Fynwy,- dwy enghraifft o'r fath yw cynhyrchu ynni adnewyddadwy a bwyd o ffynonellau lleol. Mae addasu i'r heriau y gallai newid hinsawdd gael ar ddiwydiannau megis cynhyrchu bwyd hefyd yn bwysig. Mae gan bartneriaid y sector cyhoeddus y cyfle i arwain y ffordd wrth brynu nwyddau a gwasanaethau lleol pryd bynnag bydd yn bosib.

## Cyfrannodd nodau llesiant at y canlynol

| Cymru Lewyrchus (1) | Cymru Gydnerth (2) | Cymru Iachach (3) | Cymru sy'n fwy Cyfartal (4) | Cymru o gymunedau cydlynus (5) | Cymru â diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (6) | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (7) |
|---|---|---|---|---|---|---|

Er mwyn cyfrannu at Gymru Lewyrchus, mae angen gwneud cysylltiadau rhwng addysg a busnes i sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau ar gyfer swyddi'r dyfodol. Bydd y Fargen Ddinesig yn gyfrannwr allweddol at Gymru Lewyrchus, ond bydd hefyd yn allweddol ar gyfer adeiladu ar gryfderau'n heconomi leol, ein treftadaeth a'n diwylliant i fwyhau'r cyfraniad ddeuant i'r economi. Bydd seilwaith drafnidiaeth gynaliadwy yn allweddol i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad i swyddi a hyfforddiant, ynghyd â lleihau allyriadau carbon.

## Cyflenwi'r Datrysiad

| Bydd ByGC yn canolbwyntio ar y canlynol: | Cysylltiadau amcan | Nodau | Effaith |
|---|---|---|---|
| Mwyhau cyfleoedd i Sir Fynwy fel rhan o'r Fargen Ddinesig | | 1, 4, 5 | Canolig |
| Gwell dealltwriaeth o waith yn y dyfodol a sicrhau bod hyfforddiant ac addysg yn cysylltu â busnes i ddynodi'r sgiliau sydd eu hangen yng ngweithlu Sir Fynwy nawr ac yn y dyfodol. | | 1 | Canolig |
| Datblygu technolegau newydd ar gyfer gwella trafnidiaeth wledig | | 1, 4, 5, 7 | Canolig |
| Hyrwyddo gwell rhwydweithio o fewn busnes i rannu gwybodaeth a mynediad i dechnoleg a chyfleoedd rhanbarthol i alluogi busnesau i dyfu. | | 1 | Byr |
| Ymchwilio i bosibiliadau sefydlu canolfannau arbenigol o ragoriaeth yn Sir Fynwy e.e. bwyd/lletygarwch, amaethyddiaeth, twristiaeth a thechnoleg. | | 1, 2, 6 | Canolig |

# Beth sy'n digwydd nesaf?

## Ymgynghoriad y Cynllun Llesiant

Cynhaliwyd ymgynghoriad 12-wythnos rhwng Tachwedd 2017 a Chwefror 2018 i gasglu meddyliau a syniadau ar y cynllun llesiant a llywio camau gweithredu y gellir eu cymryd i gyflawni'r amcanion a'r camau a amlinellir yn y cynllun. Cymerodd cannoedd o bobl ran a chasglwyd eu safbwyntiau. Amlygwyd rhai themâu cyffredin o'r 82 o arolygon ar-lein a gwblhawyd:

- Roedd cefnogaeth gref i bwysigrwydd mynd i'r afael â thrafnidiaeth gyhoeddus wael, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Daeth pwysigrwydd cael llwybrau diogel ar gyfer cael cerdded a beicio i bob oedran drosodd yn gadarn gyda manteision dilynol i iechyd a gwella ansawdd aer. Pwysleisiwyd yn ogystal yr angen i blant a phobl ifanc allu defnyddio'r awyr agored ar gyfer chwarae a hamdden.
- Roedd sylwadau cefnogol ar yr angen i ail fynd i'r afael â'r cyflenwad a'r amrywiaeth o stoc tai i sicrhau bod tai addas a fforddiadwy ar gael i bob grŵp demograffig, gydag awgrymiadau penodol yn cynnwys sut y gellid galluogi hyn a lle byddai hyn o'r budd mwyaf.
- Codwyd rhai pryderon ynghylch yr orddibyniaeth ar wirfoddolwyr yn y cam ar ddatblygu model gofal wedi'i adeiladu ar lesiant a phobl yn edrych ar ôl ei gilydd yn hytrach na thrwy ddarpariaeth gofal ffurfiol. Gosodwyd pwyslais hefyd ar gydnabod y swyddogaeth bwysig mae darpariaeth gofal ffurfiol o hyd yn ei hawlio.
- Amrywiodd yr ymatebion i'r cam ar weithio i sicrhau bod ysgolion a gwasanaethau ar gyfer plant yn canolbwyntio ar lesiant ac agwedd mwy cyfannol. Tra cytunai rhai ymatebion bod angen agwedd fwy cyfannol at ei gilydd, pwysleisiodd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd ffocws parhaus ar ganlyniadau academaidd i bobl ifanc.

Yn y gweithdy Mynediad i Bawb a gynhaliwyd ar gyfer pobl hŷn a phobl ag anableddau, ail-bwysleisiwyd themâu tebyg. Daeth trafnidiaeth gyhoeddus eto yn amlwg fel thema. Mynegwyd pryderon ynghylch sbwriel ac ymddangosiad gweledol y sir, rhai penderfyniadau cynllunio ac fel y darperir adnoddau ar gyfer y camau yn y Cynllun Llesiant. Roedd y grŵp yn eiddgar i sicrhau nad oes gorddibyniaeth ar wirfoddolwyr ac y caiff gwasanaethau gofal statudol eu hamddiffyn.

Roedd y bobl ifanc yn y Fforwm Ieuenctid yn hynod gefnogol i'r pwyslais ar lesiant a chymorth iechyd meddwl. Roedd ganddynt lawer o syniadau ymarferol ar gyfer gwaith pontio'r cenedlaethau a phrosiectau amgylcheddol a theimlent fod angen i addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy osod mwy o bwyslais ar lefel ysgolion uwchradd. Cytunent fod angen mynd i'r afael â thrafnidiaeth gyhoeddus a thai fforddiadwy ac roeddent yn pryderu am ddiffyg cyfleoedd gwaith a'r mathau o swyddi oedd ar gael yn y sir.

I grynhoi, cytunai mwyafrif yr ymatebion a dderbyniwyd â'r garfan o amcanion, tra roedd hefyd awydd i weld manylion pellach ar y gweithredu y cynlluniai ByGC eu cymryd i gyflenwi'r camau. Yn gyffredinol gellir ystyried yr adborth penodol a dderbyniwyd mewn dwy ran:

adborth perthnasol i gwblhau'r cynllun llesiant, a syniadau ac adborth sydd angen eu hystyried i ddatblygu cynllun gweithredu ByGC.

Gosodwyd yr amcanion yn seiliedig ar asesiad cynhwysfawr o lesiant yn y sir. Adolygwyd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cynllun a'r amcanion a gwnaed diwygiadau priodol i'r cynllun lle cydnabu tystiolaeth bellach a mewnwelediad fod newid yn ofynnol. Mae meysydd adborth lle na fu'n briodol newid y cynllun ar yr adeg hon, a chaiff yr adborth sy'n weddill ei ystyried ymhellach yn natblygiad y cynllun gweithredu ac mewn unrhyw adolygiadau o'r amcanion yn y dyfodol.

## O'r Cynllun Llesiant i Weithredu

Drwy gydol y broses ymgynghori daeth yn amlwg bod y materion o fewn y Cynllun Llesiant yn gymhleth eithriadol, ac mewn nifer o achosion, bydd angen gwaith pellach a dadansoddiad manwl cyn y bydd angen penderfynu ar natur benodol y gweithredu sydd angen ei ddatblygu. Mae nifer o'r camau a awgrymwyd yn heriol ac angen newidiadau sylfaenol i'r ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd. Mae hefyd yn annhebygol yr eir i'r afael â'r heriau'n effeithiol drwy barhau â'r un rhaglenni neu'r systemau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

NID yw'r cynllun yn blaenoriaethu neu'n amlinellu amserlen ar gyfer gweithredu – bydd hon yn dilyn yn y cynllun gweithredu. Fodd bynnag, rhoddir awgrym o'r graddfeydd amser bras, cynhwyswyd tymor byr (hyd at 5 mlynedd), tymor canolig (hyd at 5 a 10 mlynedd), neu dymor hir (yn fwy na 10  mlynedd). Dengys hyn pryd y gallai buddion posib gael eu teimlo yn hytrach na phryd bydd gweithgarwch yn cychwyn. Ni ellir cyflawni pob gweithgarwch ar yr un pryd – ac ni fydd angen adnoddau cyfartal na'r un ymrwymiad amser ar bob cam.  Caiff gwaith ei drefnu dros fywyd y cynllun gan sicrhau ei fod yn uchelgeisiol eto'n gyflawnadwy. Ni sefydlwyd graddfeydd amser pendant hyd yn hyn.

Mae cynllun gweithredu manwl a threfniadau i reoli rhaglenni'n cael eu datblygu a chânt eu cyhoeddi ar wahân i'r cynllun llesiant. Caiff y rôl arweiniol ar gyfer pob gweithred ei dyrannu i un o aelodau cyfansoddol ByGC tra bydd partneriaid eraill yn cyfranogi ochr yn ochr â phobl, sefydliadau a rhwydweithiau all ddod â'r rhychwant gorau o fewnwelediadau, heriau adeiladol, data a datrysiadau i Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd hyn yn sicrhau bod gweithgarwch wedi'i sylfaenu ar dystiolaeth ac yn canolbwyntio ar gyflawni effaith.

Fel y datblygir manylion byddant yn canolbwyntio ar yr effaith ar wahanol grwpiau cymdeithasol a'r cyfleoedd ar eu cyfer, neu'r rheiny â nodweddion gwarchodedig. Bydd ffocws hefyd ar ardaloedd penodol lle mae angen targedu gweithgarwch yn seiliedig ar broffiliau ardal yn yr asesiad llesiant a thystiolaeth bellach. Mae'n cymunedau'n amrywiol ac mae pob un ohonynt yn unigryw. Bydd y gwaith gymer partneriaid yn adlewyrchu hyn.

Fel mae ByGC yn symud i mewn i gyfnod nesaf y gwaith bydd yn parhau i ddefnyddio'r agwedd 'ddwbl ddiemwnt' a amlinellir yn yr atodiad, ac yn arbennig:

- Ymchwilio ymhellach i achos sylfaenol y problemau/yr heriau.
- Dynodi modelu a fydd yn ein helpu i ddeall yr heriau'n well.
- Deall tueddiadau'r dyfodol a beth fydd y llwybrau arfaethedig i'n gwasanaethau os pery'r systemau fel y maent - a oes angen ymyrryd â systemau er mwyn gwella gwasanaethau?

- Deall beth fyddai agenda hollol ataliol yn ymdebygu a beth allai gyflawni?
- Deall rhyngddibyniaeth asiantaethau eraill.
- Ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd ar draws yr holl sir a pha rai sydd angen eu canolbwyntio ar ardaloedd daearyddol penodol.
- Ystyried sut mae darparu adnoddau ar y cyd i gyflenwi'r camau.


## Datblygu Enghraifft y Cynllun Gweithredu - partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc

Mae Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc (PSPaPhI) yn cymryd rôl arweiniol yn amcan ByGC o ddarparu'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc, a'r camau a ddynodwyd o fewn yr amcan, maent eisoes wedi dechrau bwrw rhagddi â'r amcan i ddatblygu cynllun gweithredu mwy manwl i'w wireddu.

Mae nifer o feysydd allweddol lle bydd gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus swyddogaeth mewn mynd i'r afael â phroblemau, ysgogi gweithredu, dylanwadu ar eraill a sicrhau cyfleoedd ar gyfer gwelliannau.

Wrth edrych yn fanwl ar yr amcan llesiant, cydnabuwyd y cysylltiad rhwng y camau a'u heffeithiau pellgyrhaeddol. Cytunodd y Bartneriaeth y byddai'r cam 'iechyd a llesiant emosiynol' yn gwneud man cychwyn synhwyrol, ond y byddai angen gwaith pellach i ymchwilio'r maes hwn yn fanylach, gan gydnabod y cysylltiadau rhwng y cam hwn a'r camau eraill, a chynnig i Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus beth allai'r Bartneriaeth ganolbwyntio'i hamser a'i hegni arno yn y flwyddyn i ddod.

Wedi ymchwilio'r amcan yn fanylach, a chytuno ar y dull o gymhwyso persbectif 'iechyd meddwl a llesiant emosiynol' i'r her, mae'r Bartneriaeth yn ymchwilio i ymarfer rhychwantu i lywio'r gweithredu sy'n ofynnol gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus. Cydnabyddir, tra mae enghreifftiau rhagorol o waith da'n digwydd ar draws Sir Fynwy a bod sefydliadau wedi bod yn ceisio mynd i'r afael â'r materion heriol hyn am nifer o flynyddoedd, bod angen dadansoddi pellach i ddeall paham nad yw'n dulliau'n gweithio mor effeithiol ag y mae angen iddynt. Yng ngoleuni hyn, mae CYPSP yn cynnig datblygu cynllun prosiect trylwyr i ymchwilio i'r meysydd canlynol yn fanylach.




Unwaith bydd y rhychwant llawn wedi'i gytuno, datblygir cynllun gweithredu manwl, a dynodir 'pwyntiau arweiniol' i lywio ymhellach y gweithredu sy'n ofynnol i ddatblygu'r amcan a'r camau o'i fewn.

## Gweithio gyda'n gilydd fel ByGC i wneud i'r amcanion ddigwydd

Yn ystod haf 2017, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol adborth ar Asesiadau Llesiant yng Nghymru. Yn ychwanegol, ceisiodd Sir Fynwy gyngor y Comisiynydd ar y Cynllun Llesiant oedd yn datblygu, a derbyniodd ymateb ysgrifenedig ym Medi 2017.

Mae'r ddwy ddogfen hon yn cynnwys cyngor ar y modd i sicrhau bod ByGC yn gweithio'n effeithiol ac yn gydweithredol, yn herio'r status quo a bod yn arloesol ei agwedd. Mae'r pwyntiau a amlinellir isod yn nodi rhai o'r meysydd mae ByGC Sir Fynwy wedi clustnodi i weithio'n well arnynt gyda'i gilydd:

- Galluogi cymunedau i helpu eu hunain e.e. nodi asedau lleol a'u datblygu yn ôl yr angen, datblygu pecynnau cymorth.
- Sicrhau y sefydlir  cysylltiadau cyfathrebu clir rhwng ByGC, Llywodraeth Leol, Cynghorau Tref a Chymuned a'r gymuned.
- Datblygu cysylltiadau gwell rhwng gwasanaethau, sefydliadau a grwpiau cymunedol, i gyflenwi agwedd fwy cydgysylltiedig ac ataliol.
- Uno data, gwybodaeth a systemau i ganiatáu i asiantaethau gael gwell dealltwriaeth o heriau a manteisio ar gyfleoedd.
- Ymchwilio i'r posibiliad o rannu adnoddau ariannol ac asedau i gyflenwi camau sy'n mynd i'r afael ag amcanion y cynllun llesiant.
- Dynodi cyfleoedd ar gyfer caffael y sector cyhoeddus i gefnogi'n well ddatblygu gwasanaethau a chynnyrch lleol a bod yn fyd-eang gyfrifol.

# Gwerthuso ac Adolygu

Mae’r ffocws o fewn y Ddeddf Cenedlaethau’r Dyfodol yn golygu y bydd angen i weithgareddau droi fwyfwy o gwmpas heriau tymor hir ar lefel gymunedol. Pan ymdrinnir â heriau cymdeithasol mwy cymhleth bydd yn cymryd mwy o amser i newid y gellir ei fesur ddigwydd a mwy o amser eto i allu gweld tystiolaeth o’r newidiadau hyn mewn ffordd ystyrlon. Golyga hyn y bydd angen i’r ffordd y mae Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus fesur a gwerthuso perfformiad ganiatáu i gynnydd a cherrig milltir gael eu gwerthuso a’u craffu yn y tymor byr tra sicrheir hefyd y defnyddir y wybodaeth gywir i dracio cynnydd yn erbyn amcanion llesiant cymunedol tymor hir. Mae datblygu metrigau cywir llediant cymunedol yn broses barhaus i bartneriaid Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus ar lefel leol ynghyd ag ar draws Gwent.

Fel y datblygir y Cynllun Gweithredu, rhoddir ystyriaeth ofalus i’r modd y mesurir a yw’r camau’n gwella llesiant. Amlinellir y mesurau hyn yn y Cynllun Gweithredu.

## Dangosyddion Cenedlaethol

Gallai’r dangosyddion cenedlaethol hefyd gael swyddogaeth arbennig wrth fesur y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni nodau llesiant gan Gymru fel cyfangorff. Defnyddiwyd y dangosyddion hyd yn hyn i helpu Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus ddeall llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn yr asesiad llesiant.

Tra na fydd y dangosyddion cenedlaethol yn mesur perfformiad cyrff cyhoeddus unigol neu fyrddau’r gwasanaethau cyhoeddus, mae’n bwysig eu bod yn cael eu hystyried gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus i dracio cynnydd a wneir yn erbyn yr amcanion llesiant a lle mae data ar gael ar lefel leol gellir mesur y cynnydd a wnaed yn Sir Fynwy.

Bydd yr holl ddangosyddion cenedlaethol yn gymorth i fesur llesiant yn Sir Fynwy, ond rhai o’r dangosyddion sy’n benodol berthnasol yn Sir Fynwy yw’r canlynol:

| **Dangosyddion cenedlaethol sy’n gysylltiedig â’r amcanion** |
|---|
| Disgwyliad oes hapus ar enedigaeth gan gynnwys y bwlch rhwng y llai difreintiedig a’r mwyaf difreintiedig. |
| Mesur datblygiad plant ifanc. |
| Canran y plant sydd â llai na dau ymddygiad dull o fyw iach (ddim yn ysmygu, yn bwyta pum ffrwyth / llysieuyn y dydd, byth/anaml yn yfed ac yn cwrdd â chanllawiau gweithgarwch corfforol). |
| Canran yr oedolion sydd â llai na dau ymddygiad dull o fyw iach (ddim yn ysmygu, yn bwyta pum ffrwyth / llysieuyn y dydd, byth/anaml yn yfed ac yn cwrdd â chanllawiau gweithgarwch corfforol). |
| Cyfartaledd sgôr pwyntiau wedi’i chapio disgyblion Blwyddyn 11, yn seiliedig ar eu 8 canlyniad arholiad gorau. |
| Canran yr oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau o’r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. |
| Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi’i fesur ar gyfer grwpiau oedran gwahanol. |

| |
|---|
| Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) yr awr a weithiwyd (mewn perthynas â chyfartaledd y DU) |
| Incwm Gwario Gros y pen Aelwydydd . |
| Canran y busnesau sy'n weithredol yn arloesi. |
| Canran y bobl mewn cyflogaeth. |
| Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol.. |
| Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer. |
| Maint (mewn MW) y cyfarpar ynni adnewyddadwy a osodwyd . |
| Crynodiad carbon a deunydd organig mewn pridd. |
| Ôl troed ecolegol |
| Canran yr anheddau gyda pherfformiad ynni digonol.. |
| Canran y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gyrraedd/gyrchu'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt. |
| Canran y bobl sy'n fodlon â'r ardal leol fel lle i fyw. |
| Canran y bobl sy'n Gwirfoddoli. |
| Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy bob wythnos. |

## Mesur llesiant Cymunedau Hapus

Mae pum Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn rhanbarth Gwent wedi cytuno ar y cyd i ddefnyddio'r cyfryngau Cymunedau Hapus er mwyn mesur yn well, deall a gwella llesiant eu poblogaethau. Ar hyn o bryd mae mesur llesiant wedi'i gyfyngu'n bennaf i'r data a dderbyniwyd o gyfrifiad 2011 sydd heb fanylion llesiant, union amserau a'r manylder lleol sydd eu hangen i drwytho unrhyw ymgais i wneud penderfyniadau gwirioneddol.

Drwy ddefnyddio'r union gyfryngau ar draws Gwent fer fydd yn bosibl cymharu llesiant ar draws y rhanbarth ac yn erbyn unrhyw rannau eraill o'r DU. Gellir defnyddio'r cyfryngau i drwytho'r broses o wneud penderfyniadau ar lefel cymuned, ward, cymdogaeth neu ar raddfa awdurdod cyfan. Gellir gweld mwy o fanylion ar y cyfryngau ar www.happycity.org.uk/measurement-policy/about-measurement-policy

Mae Cymunedau Hapus yn darparu dau gyfrwng: Mynegai Cymunedau Hapus sy'n mesur yr amodau lleol ar gyfer llesiant cymunedol a'r Pwls Hapusrwydd sy'n fesur o lesiant personol.

Mae'r *Mynegai Cymunedau Hapus* yn tynnu oddi ar nifer o ddangosyddion o amrywiol ffynonellau i ddeall ac asesu penderfynyddion lleol llesiant a lle i dargedu ymyriadau i greu'r amodau i bobl ffynnu. Cyn belled â phosib, mae'r dangosyddion yr un peth, neu'n gyfystyr â'r dangosyddion Saesneg fel y gellir tynnu cymariaethau gydag ardaloedd eraill, a fydd yn hynod ddefnyddiol i Sir Fynwy, o gofio pa mor agos yw i siroedd Lloegr.

Mae'r *Pwls Hapusrwydd* yn mesur llesiant personol mewn cymunedau drwy arolwg preswylwyr a gyflawnwyd yn Ionawr a Chwefror 2018. Mae'r arolwg yn darparu sgôr llesiant mewn tri maes, Bod, Gwneud a Chysylltu ac mae'n helpu pobl i ddeall sut i wella'u llesiant.

Bydd y canlyniadau yn gymorth i ni asesu a gwerthuso llesiant o fewn Sir Fynwy a chaniatáu i lesiant yn Sir Fynwy gael ei gymharu ag ardaloedd eraill yng Ngwent. Gall yn ogystal gael ei ddefnyddio i lywio gwneud penderfyniadau'n lleol gan gynnwys datblygu cynllun gweithredu.

## Cofnodi perfformiad a graddfeydd amser

Bydd partneriaid Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd yn cyn cymryd rôl arweiniol i gyflenwi a gwerthuso datblygiad y cynllun. Bydd Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynhyrchu adroddiad blynyddol yn manylu ar weithgarwch y flwyddyn gyflawn. Bydd yr adroddiad yn cynnwys y camau a gymerwyd i gwrdd â'r amcanion ers cyhoeddi'r cynllun llesiant ac ystod o wybodaeth arall i werthuso cynnydd, gan gynnwys cynnydd yn berthnasol i'r dangosyddion cenedlaethol  ac unrhyw wybodaeth arall ynghylch perfformiad a ddynodwyd yn y cynllun i asesu cynnydd wrth gyflenwi'r amcan. Bydd Pwyllgor Dethol Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn cymryd rôl arweiniol wrth graffu datblygiad a pherfformiad y cynllun.

## Casgliad

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gam arwyddocaol tuag at gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy yng Nghymru sy'n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r posibilrwydd o wneud gwahaniaeth gwirioneddol  i fywydau pobl sy'n byw yn Sir Fynwy'n enfawr.

Mae Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy'n gynhyrfus ynghylch y cyfle i weithio mewn modd cydweithredol, cynllunio ar gyfer yr hir dymor a gwrando ar leisiau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn ein sir. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd mewn modd mwy cydgysylltiedig a chyfannol drwy weithredu nawr i atal problemau rhag cael eu trosglwyddo i'n cenedlaethau sydd i ddod yn y dyfodol.

Ni fydd adeiladu cymunedau cynaliadwy, cadarn yn Sir Fynwy yn broses gyflym, ond mae'r Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant yn gerrig milltir ar y siwrnai tuag at ddod yn fwy cynaliadwy. Y cyfnod nesaf fydd datblygu'r cynllun gweithredu manwl a fydd yn amlinellu'n gweithredoedd a'n hymrwymiadau pendant i bartneriaid a sefydliadau gymryd y camau nesaf ar y siwrnai hon.